Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cynllun cyflogadwyedd

## Adroddiad cynnydd 2018

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG35517 ISBN digidol 978-1-78964-137-0

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Gweinidog | 2 |
| Cyflwyniad | 3 |
| Targedau allweddol | 4 |
| Cynnig dull personol o ddarparu cymorth cyflogadwyedd | 10 |
| Pwysleisio cyfrifoldeb cyflogwyr i uwchsgilio eu gweithwyr, i helpu eu staff ac i ddarparu gwaith teg | 17 |
| Creu gwaith teg a gweithleoedd gwell | 26 |
| Ymateb i fylchau mewn sgiliau yn awr ac yn y dyfodol | 31 |

# Rhagair y Gweinidog



**Eluned Morgan AC**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**

Ym mis Mawrth eleni, cyflwynwyd ein gweledigaeth i wneud Cymru yn economi cyflogaeth llawn, uwch dechnoleg, cyflog uchel. Roedd ein Cynllun Cyflogadwyedd yn cyflwyno strategaeth uchelgeisiol i greu gweithlu wedi'i hyfforddi i lefel uchel ac sy'n gynhwysol, a all ymateb yn effeithiol i anghenion sgiliau cenedlaethol a rhanbarthol. Yn ganolog i'r uchelgais hon, mae ein hymrwymiad i helpu unigolion - ni waeth beth fo'u gallu, eu cefndir, eu rhywedd, neu eu hethnigrwydd - i gyflawni eu llawn botensial trwy waith ystyrlon, trwy ddarparu cymorth o ansawdd uchel wedi'i deilwra i'r unigolyn, trwy gynyddu'r cyfleoedd i gael gwaith cynaliadwy, a thrwy wneud rôl cyflogwyr yn flaenllaw i sicrhau dyfodol gweithlu Cymru.

Chwe mis yn ddiweddarach, mae'r adroddiad hwn yn dangos y cynnydd rydym wedi'i wneud tuag at gyflawni'r weledigaeth hon, gan gyflwyno ein cyflawniadau hyd yma a'r datblygiadau a fu i gyflawni prosiectau tymor hir allweddol.

O ystyried maint ac ehangder ein Cynllun Cyflogadwyedd trawslywodraethol, nid oes bwriad i adrodd ar bob cam o'r Cynllun yn y cyfnod cymharol fyr ers ei gyhoeddi. Yn yr adroddiad hwn, fodd bynnag, rydym yn gobeithio rhoi blas o'r gwaith sy'n mynd yn ei flaen, y cyfeiriad rydym yn anelu ato, ac i dynnu sylw at y cynnydd a wnaethpwyd gennym yn barod ar draws y Llywodraeth.

Rwy'n hynod falch o'r gwaith sy'n mynd rhagddo'n gyflym i droi dyheadau'r Cynllun yn gynlluniau cyflawn. Dros y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn ymgysylltu'n helaeth â sbectrwm eang o randdeiliaid a phartneriaid cyflenwi i ddatblygu ein dyheadau a gosod y sylfeini ar gyfer system gyngor a chefnogaeth fwy effeithlon a chydlynus a fydd yn gwella'r rhagolygon ar gyfer cyflogadwyedd ledled Cymru.

Ymysg amrywiaeth o gynlluniau a phrosiectau gwahanol ar draws y llywodraeth, rydym yn gwneud cynnydd rhagorol yn datblygu ein dau wasanaeth cyflogadwyedd newydd, Cymru'n Gweithio a'r Porth Cyngor Cyflogaeth, yn barod ar gyfer eu lansio flwyddyn nesaf. Drwy'r prosiectau hyn, byddwn yn creu system gymorth symlach a mwy effeithlon ar gyfer cyflogadwyedd, wedi'i theilwra i anghenion yr unigolyn ac wed'i chysylltu'n well â nifer o wasanaethau eraill, gan gynnwys trafnidiaeth, iechyd a chymorth gofal plant, fel rhan o'n dull gweithredu ym maes cyflogadwyedd sy'n fwyfwy holistaidd a thrawslywodraethol.

Drwy fy nghyfarfodydd fy hun â rhwydweithiau busnes a chwmnïau angori, rydym yn parhau i gryfhau ein perthynas weithio â busnesau Cymru ac, yn bwysig iawn, yn pwysleisio eu cyfrifoldebau fel cyflogwyr i feithrin eu gweithlu. Dim ond trwy ddatblygu'r cyfryw bartneriaethau, ar lefel leol a chenedlaethol, y byddwn yn darparu cyfleoedd gwaith teg i bawb.

Er gwaethaf yr ansicrwydd gwleidyddol ac economaidd sy'n bodoli wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, ac effaith hynny ar y farchnad lafur yng Nghymru, rydym yn benderfynol o fwrw ymlaen i gyflawni ein Cynllun Cyflogadwyedd uchelgeisiol a fydd yn helpu pobl ledled Cymru i gael gwaith heddiw, a hynny wrth i ni hefyd baratoi ar gyfer newidiadau radical y dyfodol.



# Cyflwyniad

Fel rhan o strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb, cyhoeddwyd Cynllun Cyflogadwyedd traws-lywodraethol gennym ym mis Mawrth eleni, sy'n cyflwyno ein gweledigaeth ar gyfer economi sydd wedi'i seilio ar sgiliau o ansawdd uchel a phobl sydd â'r gallu i ffynnu – a'r camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni hyn.

Roedd y Cynllun yn cynnwys rhaglen uchelgeisiol i ddarparu system o gymorth cyflogadwyedd fwy effeithiol, sy'n rhoi pwyslais ar anghenion amrywiol unigolion, a ffordd newydd ddynamig i roi sylw i anghenion sgiliau amrywiol ledled y wlad. Yn ogystal â phrosiectau a chynlluniau newydd arloesol, roedd y Cynllun yn cynnwys targedau deng mlynedd heriol i bennu'r cyfeiriad i'r holl bartneriaid sy'n gweithio ar gyflogadwyedd fel ein bod yn fwy cydlynus ac effeithlon, wedi ein huno gan nodau cyffredin. Mae'r cynllun hefyd yn gydnaws iawn â'r dyheadau a nodwyd yn ein Cynllun Gweithredu Economaidd – gyda'i gilydd eu nod yw ysgogi twf cynhwysol, gwella cynhyrchiant a diogelu ein heconomi rhag heriau'r dyfodol.

Ers ei gyhoeddi, rydym wedi dechrau gweithredu ar ystod eang o gamau i gyflawni'r ymrwymiadau a'r weledigaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun, gan gydweithio'n glos â phartneriaid i weithredu a datblygu ein strategaeth ymhellach.

Mae'r Cynllun yn nodi pedair prif thema ar gyfer gweithredu:

- darparu cymorth cyflogadwyedd sydd wedi'i lunio ar gyfer yr unigolyn
- pwysleisio'r cyfrifoldeb sydd ar gyflogwyr i uwchsgilio a helpu eu staff
- ymateb i fylchau'r presennol a'r dyfodol mewn sgiliau
- a pharatoi ar gyfer newid radical ym myd gwaith

Mae hwn yn adroddiad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y themâu hyn.

Mae'r adroddiad yn myfyrio ar ein cyflawniadau yn ystod y chwe mis diwethaf ers cyhoeddi'r Cynllun, gan nodi'r cynnydd a wnaed i gyflawni'r ymrwymiadau hyn a thynnu sylw at ddatblygiadau i'w cyflawni yn y dyfodol. Dyma'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau blynyddol ar weithredu'r Cynllun Cyflogadwyedd.

## Rhan allweddol o'n Cynllun Cyflogadwyedd yw nifer o dargedau cenedlaethol heriol i helpu i wireddu gweledigaeth gyffredinol y Cynllun a'r pedair thema sy'n ganolog iddo

**Byddwn yn dileu'r bwlch mewn cyfraddau diweithdra oedran gweithio rhwng Cymru a'r DU o fewn 10 mlynedd**


Mae oddeutu 71,900 o bobl ddi-waith yng Nghymru. Byddai dod ag 8,600 o'r grŵp hwn i gyflogaeth, yn dileu'r bwlch rhwng Cymru a'r DU.[1] Mae dangosyddion diweddar y farchnad lafur yn dangos bod y gyfradd ddiweithdra wedi parhau i syrthio yn ystod 2018.

I gyflawni'r uchelgais hon, mae ein Cynllun Cyflogadwyedd yn disgrifio'r newidiadau yr ydym yn eu gwneud i'n rhaglenni cymorth cyflogadwyedd, yn fwyaf penodol cyflwyno Cymru'n Gweithio a'r Porth Cyngor Cyflogaeth.

Ein nod yw ymgysylltu â hyd at 50,000 o bobl y flwyddyn trwy'r Porth Cyngor Cyflogaeth, ac rydym yn bwriadu gweithio gydag oddeutu 42,000 o oedolion ym mhedair blynedd cyntaf y rhaglen Cymru'n Gweithio.

Bydd ein rhaglen Cymunedau am Waith bresennol hefyd yn darparu cymorth cyflogadwyedd i dros 13,500 o gyfranogwyr sy'n ddi-waith yn yr hirdymor, a hynny erbyn 2020. I gyd-fynd â'n cymorth i unigolion rydym yn rhoi pwyslais ychwanegol ar gysylltu sgiliau ag anghenion cyflogwyr ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae enghreifftiau o'r cynnydd cynnar yn y maes hwn i'w gweld yn yr adroddiad.

**Cyfradd Diweithra – Cymru o'i chymharu â'r DU (18 i 64)**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth / Arolwg o'r Llafurlu Lleol

[1] Yn seiliedig ar ddata o'r Arolwg Blynyddol o Boblogaeth hyd at fis Mawrth 2018..

## Byddwn yn dileu'r bwlch mewn cyfraddau anweithgarwch economaidd rhwng Cymru a'r DU o fewn 10 mlynedd


Mae'r gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn 23.5% ar hyn o bryd, o'i gymharu â 22.5% yng ngweddill y DU. I ddileu'r bwlch rhwng Cymru a'r DU, byddai angen i tua 18,800 o bobl yng Nghymru symud i gyflogaeth, gan leihau'r boblogaeth anweithgar economaidd bresennol o 339,600 i 320,800.

Rydym yn cydnabod maint yr uchelgais hon. Rydym yn wynebu'r her trwy bwyslais cynyddol ar gyflogaeth i bobl anabl, gan gynnwys yr unigolion hynny â chyflyrau iechyd meddwl, cydweithio'n glos â busnesau i annog prosesau recriwtio arloesol a gwella cymorth iechyd i gyflogeion, a thrwy symleiddio ac alinio ein rhaglenni cyflogadwyedd, i sicrhau bod pobl yn cael cymorth personol i fynd i'r afael â'u rhwystrau personol sy'n eu hatal rhag gweithio.

Er enghraifft, fel rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio gyda phartneriaid y Fargen Ddinesig i gyd-ddylunio Rhaglen Gwaith ac Iechyd Cymru gyfan y DWP, sy'n cael ei ariannu gan £35.7m dros gyfnod o saith mlynedd. Mae'r Rhaglen Gwaith ac Iechyd yn cynnig cymorth cyflogaeth wedi'i deilwra yn y gymuned i bobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd, a phobl sydd wedi bod yn ddi-waith yn y tymor hir, i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau ac i ymuno â'r farchnad waith. Trwy'r rhaglen hon a ariennir gan y DWP, y bwriad yw helpu 15,500 i waith, gan gynnwys llawer o bobl economaidd anweithgar. Hyd yma mae dros 2,200 o unigolion wedi'u cofrestru â'r gwasanaeth ac mae dros 600 wedi cychwyn mewn gwaith cyflogedig ers hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen drwy gyfrannu'n weithredol at reoli perfformiad y rhaglen.

Hefyd, byddwn yn parhau i fynd i'r afael â'r lefelau o anweithgarwch economaidd trwy ein rhaglenni cyflogadwyedd cymunedol. Trwy ein rhaglen Cymunedau am Waith yn unig rydym yn bwriadu ymgysylltu â dros 26,400 o gyfranogwyr sy'n economaidd anweithgar erbyn 2020.

### Cyfradd anweithgarwch economaidd – Cymru o'i chymharu â'r DU




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth / Arolwg o'r Llafurlu Lleol

**Byddwn yn dileu'r bwlch rhwng Cymru a'r DU ar bob lefel cymhwyster mewn deng mlynedd, ac yn sicrhau ein bod y y dyfodol yn o leiaf cynnal ein perfformiad mewn perthynas â gweddill y DU**


Mae data diweddaraf yr arolwg yn amcangyfrif bod 79 y cant o oedolion oedran gweithio wedi'u cymhwyso hyd at lefel 2 neu uwch (5 TGAU A*- C neu gymwysterau cyfatebol), 58 y cant â lefel 3 neu uwch (2 lefel A neu gymhwyster cyfatebol) a 37 y cant â lefel 4 neu uwch (Addysg Uwch neu gyfatebol).

Mae'r bwlch presennol â'r DU yn ei chyfanrwydd yn cynyddu o 1 pwynt canrannol ar lefel 2 ac uwch i 3.5 pwynt canrannol ar lefel 4 ac uwch.

Ers pennu'r targed hwn, rydym wedi gweithio i gael gwell dealltwriaeth o'r bwlch rhwng Cymru a'r DU o ran lefelau cymwysterau. Byddwn yn awr yn ystyried yr opsiynau i gynyddu'r ddarpariaeth i gau'r bwlch hwn, gan gynnwys ymgysylltu â chyflogwyr i uwchsgilio eu gweithlu, a diwygio rhaglenni a chynlluniau sy'n cael eu harwain gan Lywodraeth Cymru.

Mae ein cynllun prentisiaethau'n datblygu cyfleoedd ar lefel sgiliau uwch mewn amrywiaeth o sectorau. Hefyd, rydym yn creu cyfleoedd i bobl i ddysgu sgiliau newydd ac i hyfforddi'n annibynnol trwy gydol eu bywydau, gan ddechrau gyda'n gwaith yn datblygu cynigion ar gyfer Cyfrifon Dysgu Personol newydd.

**Lefel Cymhwyster Uchaf sydd gan oedolion o oedran gweithio (18 i 64)**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

## Byddwn yn lleihau nifer y bobl yng Nghymru sy'n NEET


Mae'r rhan fwyaf o'r data diweddaraf a gyhoeddwyd yn y chwarter diwethaf wedi dangos ein bod yn dal i weld gostyngiad yn nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET). Mae nifer y rhai 16-24 oed sy'n NEET wedi gostwng o tua 57,200 (10.5 y cant) yn 2016 i 49,900 (9.5 y cant) ar ddiwedd 2017.

Yn 2013, cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF), sydd wedi'i anelu at rai 11-25 oed, a oedd yn ymdrech i ddod â'r holl elfennau eraill sy'n lleihau lefelau NEET yn effeithiol at ei gilydd mewn un lle, gan greu strategaeth ystyrlon i bob un o raglenni cysylltiedig Llywodraeth Cymru a'r partneriaid cyflenwi.

Ers hynny, rydym wedi gweld gostyngiad graddol o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y bobl ifanc sy'n NEET yng Nghymru ac am y tro cyntaf er 2006, mae lefel y rhai 16-18 oed sy'n NEET yn awr wedi gostwng o dan 10 y cant. Mae'r cynnydd hwn yn dangos yr effaith bositif y gall strategaeth gyffredin a gweithio mewn partneriaeth ei chael i weld newid amlwg dros amser.

I adeiladu ar y llwyddiant hwn, cytunwyd i barhau â chyllid o £1m i gyfrannu at ymestyn y Fframwaith i'w bumed blwyddyn. Rydym hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith i rannu dull llwyddiannus YEPF ym mhob un o raglenni cyflogadwyedd newydd y llywodraeth, yn benodol datblygu'r Porth Cyngor Cyflogaeth ac wrth gyflwyno Cymru'n Gweithio. Yn ddiweddar trefnwyd cyfarfod cenedlaethol o Gydlynwyr Ymgysylltu a Datblygu, swyddogion Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru i gynyddu cyfleoedd i gydweithredu. Trwy ddilyn y cam hwn, rydym yn gobeithio symleiddio, cydlynu a gwella effeithiolrwydd yr hinsawdd bresennol o ran cymorth cyflogadwyedd a sgiliau i bobl ifanc.

### Cyfran y Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET)




Ffynhonell: Datganiad Cyntaf Ystadegol Llywodraeth Cymru (SFR62/2018) Cyfranogiad Pobl Ifanc mewn addysg ac yn y Farchnad Llafur

### Byddwn yn gweithio â phartneriaid i ganfod targedau addas i gynyddu nifer y bobl anabl sydd mewn gwaith


Yn y Cynllun Cyflogadwyedd, ymrwymwyd i weithio â phartneriaid i ddatblygu targed tymor hir i anelu ato i gynyddu nifer y bobl anabl, a rhai â chyflyrau iechyd cyfyngol, sy'n cael gwaith.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol trwy gasglu ystod eang o dystiolaeth a safbwyntiau gan randdeiliaid, gan gynnwys amrywiaeth o fudiadau pobl anabl, elusennau, cynrychiolwyr sector a chyflogwyr. Rydym wedi defnyddio'r adborth o'r ymgynghoriad hwn i weithredu ar ein huchelgeisiau yn y maes hwn ac rydym yn gweithio i ddatblygu targed ystyrlon a fydd yn adlewyrchu anghenion a dymuniadau pobl anabl ledled Cymru. Trwy bennu targed, rydym yn gobeithio sicrhau y gwelir y newid sylfaenol sydd ei angen mewn gweithleoedd ac mewn cymdeithas i chwalu'r rhwystrau mae pobl anabl a'r rhai hynny â chyflyrau iechyd tymor hir yn eu hwynebu pan fyddant yn chwilio am waith.

Ers mis Mawrth, rydym wedi ymgysylltu â'n partneriaid mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

- fforwm trafod (roundtable) a drefnwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith, a oedd yn cynnwys nifer o sefydliadau pobl anabl a darparwyr hyfforddiant, i glywed ystod eang o safbwyntiau'r sectorau ynglŷn â sut fyddai targed effeithiol yn edrych;
- ystod eang o fforymau ymgysylltu effeithiol rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru, sefydliadau cynrychioliadol, elusennau anabledd a chyflogwyr;
- fforymau trafod eraill i edrych sut y gallai'r cynllun Prentisiaeth yn benodol wneud mwy i helpu pobl anabl i waith;
- cyfarfodydd rhwng Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes a chyflogwyr i drafod sut y gall Llywodraeth Cymru helpu busnesau i recriwtio mwy o bobl anabl.

**Cyfraddau Cyflogaeth**




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Byddwn yn ymdrechu i bennu targed erbyn diwedd eleni a fydd yn ymdrech i leihau'r bwlch cyflogaeth anabledd presennol, ynghyd â rhagor o fanylion ar sut yr ydym yn bwriadu cyflawni'r uchelgais hon. Byddwn yn parhau i gydweithio'n glos â Llywodraeth Cymru trwy ei Huned Gwaith ac Iechyd a'r Adran Gwaith a Phensiynau i gysylltu â'r ffordd maent yn gweithio i gyflawni eu targed DU gyfan i gael 1 miliwn yn rhagor o bobl anabl i waith erbyn 2027, i sicrhau ein bod yn gweld canlyniadau positif yn cael eu cyflawni i fwy o bobl anabl a rhai â chyflyrau iechyd cyfyngol yng Nghymru.

Yn ogystal, mae ein Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol 2013 yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Y nod yw cyhoeddi fersiwn newydd yn ystod tymor yr Hydref 2018. Bydd y Fframwaith diwygiedig, a'r teitl dros dro 'Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol', yn nodi sut rydym yn mynd i'r afael â'r rhwystrau cymdeithasol i gydraddoldeb a chynhwysiant er mwyn i bobl anabl gael yr un cyfleoedd â phawb arall. Bydd cynllun gweithredu yn cyd-fynd â'r Fframwaith a fydd yn nodi amrywiaeth eang o gamau gweithredu sydd ar waith ar draws Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â rhai o'r prif rwystrau sy'n cael eu nodi gan bobl anabl eu hunain, gan gynnwys trafnidiaeth, cyflogaeth, tai a mynediad i adeiladau a mannau.

## Byddwn yn pennu targed mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynyddu nifer y cyflogwyr sy'n rhan o'r Rhaglen Cymru Iach ar Waith

Mae'r rhaglen Cymru Iach ar Waith yn cysylltu gweithleoedd, unigolion a gweithwyr iechyd proffesiynol i helpu pobl oedran gweithio yng Nghymru i gadw'n ffit ac iach fel y gallant barhau mewn gwaith, neu ddychwelyd i'w gwaith ar ôl cyfnod o afiechyd.

Rydym wedi bod yn gweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu targedau addas a fydd yn helpu i yrru nodau'r Rhaglen Cymru Iach ar Waith ac i gynyddu ei heffaith ar iechyd gweithlu Cymru.

Erbyn mis Mawrth 2020, rydym yn bwriadu ymestyn cyrhaeddiad y rhaglen i o leiaf 40% o'r boblogaeth oed gweithio.

Yn ystod y cyfnod ariannu presennol i 2020, byddwn yn gweithio i weddnewid y rhaglen a datblygu model cyflawni newydd a fydd yn helpu i gael yr effaith fwyaf. Mae hyn yn cynnwys cryfhau'r berthynas rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Busnes Cymru er mwyn gwella'r cyfleoedd a'r gefnogaeth i gyflogwyr.

Fel rhan o'r adolygiad ehangach o raglenni gwella iechyd cenedlaethol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi nifer o feysydd i'w gwella o fewn y rhaglen, gan gynnwys:

- cryfhau'r pwyslais ar y cysylltiad rhwng gwaith da ac iechyd yn ei ystyr ehangaf, gan gynnwys arferion cyflogaeth, oriau gweithio, cydraddoldeb tâl a llesiant meddyliol yn ychwanegol at y pwyslais cyfredol ar absenoldeb oherwydd salwch, ymddygiad iach ac iechyd a diogelwch;
- rhoi mwy o bwyslais ar sectorau lle mae mwyaf o anghydraddoldebau iechyd;
- ehangu'r model cyflawni i symud y tu hwnt i'r pwyslais ar ennill gwobrau;
- cynyddu nifer y mentrau bach a chanolig sy'n cymryd rhan; a
- chryfhau pwyslais y rhaglen ar werthuso ac effaith.

# Cynnig dull personol o ddarparu cymorth cyflogadwyedd

**Ein nod yw canolbwyntio ar anghenion unigol yr unigolyn ym mhob rhan o'r system cyflogadwyedd er mwyn darparu cymorth pwrpasol o ansawdd uchel**

## Y Porth Cyngor Cyflogaeth

Fel y nodwyd yn y Cynllun, bydd y Porth Cyngor Cyflogaeth newydd yn ddull allweddol i greu system fwy syml ac effeithlon o gymorth cyflogadwyedd sy'n ymateb i anghenion yr unigolyn. Bydd yn cael ei lansio ym mis Chwefror 2019.

Bydd y Porth, a fydd yn cael ei redeg gan Gyrfa Cymru, yn gweithredu fel pwynt mynediad Cymru gyfan at gymorth cyflogadwyedd, a fydd yn cyd-fynd â'r cyfryngau presennol sy'n gweithredu yn y cymunedau eu hunain. Bydd yn symleiddio atgyfeirio a mynediad i unigolion i gael y cymorth cywir ar draws nifer o raglenni ac ymyriadau, gan weithio mewn partneriaeth â'r rhwydweithiau cymorth presennol.

Bydd cyngor ac arweiniad yn cael ei ddarparu wyneb yn wyneb yn swyddfeydd Gyrfa Cymru, mewn canolfannau gwaith lleol neu mewn hybiau cymunedol, yn ogystal â dros y ffôn ac ar-lein. Byd cynghorwyr hyfforddedig y Porth yn helpu unigolion i ganfod beth yw'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael gwaith ac yn siarad â'r cwsmer am eu hamgylchiadau personol a'u dyheadau. Yn seiliedig ar hyn, bydd cynghorwyr yn gallu dod o hyd i'r llwybr gorau at waith iddynt, yr hyfforddiant a'r addysg fwyaf priodol, y cymorth mwyaf addas, ac atgyfeirio'r unigolyn at y gwasanaeth gorau.

**Byd cynghorwyr hyfforddedig y Porth yn helpu unigolion i ganfod beth yw'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael gwaith ac yn siarad â'r cwsmer am eu hamgylchiadau. personol a'u dyheadau.**

## Cymru'n Gweithio

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn natblygiad ein rhaglen gyflogadwyedd newydd, Cymru'n Gweithio, a fydd yn weithredol o fis Ebrill 2019 ymlaen. Mae'r broses o gaffael contractwyr i redeg y rhaglen ar waith ar hyn o bryd, a disgwylir y bydd wedi'i chwblhau pan ddyfernir contractau ym mis Tachwedd eleni.

Bydd y rhaglen yn crynhoi cyfres gyfredol Llywodraeth Cymru o gymorth cyflogadwyedd (gan gynnwys Twf Swyddi Cymru, ReAct, Mynediad, Hyfforddeiaeth a'r Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd) i gynnig ffordd gydlynus o ddarparu cymorth cyflogadwyedd a sgiliau, gyda'r nod o ddiwallu anghenion unigolion yn hytrach na'u halinio â meini prawf cul o ran cymhwysedd rhaglenni. Gyda chymorth ariannol yr UE, bydd yn helpu pobl o bob oed i oresgyn rhwystrau i sicrhau a chadw swyddi cynaliadwy o ansawdd da.

## Rhaglenni Cyflogadwyedd Cymunedol

Mae ein rhaglenni cyflogadwyedd cymunedol cyfredol, gan gynnwys Cymunedau am Waith (CfW) a'r Rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE), yn parhau i ymgysylltu â'r rhai sydd bellach o'r farchnad waith drwy helpu unigolion sydd â'r anghenion a'r rhwystrau mwyaf, a helpu pobl i gael gwaith ac allan o dlodi.

Mae'r rhaglenni hyn yn cael eu darparu yng nghalon cymunedau i ymgysylltu â'r rhai nad ydynt fel arfer yn manteisio ar wasanaethau. Mae'r rhaglenni CfW a PaCE ill dwy'n cael cymorth ariannol gan yr UE ac maent yn cael eu rhedeg mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Hyd ddiwedd Mai 2018, roedd CfW wedi ymgysylltu â dros 15,800 o gyfranogwyr gydag oddeutu 5,200 yn mynd ymlaen i waith. Erbyn yr un dyddiad, roedd PaCE wedi ymgysylltu â dros 3,000 o gyfranogwyr, gyda bron i 1,000 wedi mynd ymlaen i waith.

Rydym bellach wedi lansio rhaglen newydd gwerth £12m o'r enw Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+), a fydd yn gwella ac yn hybu darpariaeth Cymunedau am Waith ac yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn sgil y rhaglen Esgyn. Mae'n darparu mentora a chymorth dwys i ymgysylltu â chyfranogwyr a hefyd i roi sylw i'r rhwystrau cymhleth rhag gweithio y mae'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur yn eu profi. Mae'n galluogi cymorth cyflogadwyedd i gael ei ddarparu i bobl sydd mewn tlodi, neu mewn perygl o dlodi, ac nad ydynt yn gymwys ar gyfer Cymunedau am Waith, PaCE neu raglenni rhanbarthol eraill sy'n cael eu hariannu gan yr UE.

Yn ystod 4 mis cyntaf oes y cynllun, mae CfW+ eisoes wedi ymgysylltu â bron i 2,200 o gyfranogwyr, gyda thua 400 yn mynd ymlaen i waith.

## Trafnidiaeth

Mae argaeledd gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel, gan gynnwys trafnidiaeth ddibynadwy, yn hanfodol i gael gwared ar rwystrau rhag gweithio

Dyna pam yr ydym wedi ymrwymo yn y Cynllun i ddarparu mwy o gymorth sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth i helpu pobl i weithio ac astudio.

Trwy gydweithio'n glos â'r DWP, rydym wedi casglu adborth ar wasanaethau trafnidiaeth mewn cysylltiad â chyflogadwyedd, gan gasglu barn cwsmeriaid Canolfan Byd Gwaith yn ogystal â chyflogwyr ar sut y gallwn wella'r seilwaith trafnidiaeth i wella cyflogadwyedd mewn ardaloedd lleol.

Mewn cydweithrediad â'r DWP a'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol, rydym yn awr yn ystyried sut y gall cyflogwyr a gwasanaethau trafnidiaeth cymunedol gydweithio i greu opsiynau trafnidiaeth pwrpasol a hyblyg yn ôl a blaen i'r gwaith. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau ar gyfer peilot yn ardal Tasglu'r Cymoedd a gwneud cysylltiadau â'r cymorth a fydd yn cael ei gynnig gan y Porth Cyngor Cyflogaeth i bobl leol sy'n profi'r fath rwystrau trafnidiaeth fel eu bod yn eu hatal rhag gweithio. Mae swyddogion ar hyn o bryd yn datblygu cynllun peilot ar gyfer trafnidiaeth, gan roi sylw i ystyriaethau trethiant a chymorth gwladwriaethol a all fod yn berthnasol.

Bydd y cynllun peilot yn helpu i leihau'r rhwystrau i waith sy'n codi yn sgil diffyg trafnidiaeth hyblyg neu fforddiadwy i fannau gwaith. Mae anawsterau o'r fath yn codi'n benodol i bobl ag oriau gwaith annodweddiadol neu'r rheini ar gyflog isel nad ydynt yn gallu fforddio eu trafnidiaeth eu hunain, neu heb drwydded yrru hyd yn oed. Bydd o fantais i bobl sy'n chwilio am waith, cyflogwyr sy'n chwilio am staff, a chymunedau drwy'r manteision cymdeithasol o bobl yn ennill cyflog a chyflogwyr yn ffynnu.

Buom hefyd yn ymgynghori'n gynharach yn y flwyddyn ar gynigion i wella'r cynllun FyNhgherdynTeithio sydd, ers Medi 2015, wedi bod yn cynnig gostyngiad o draean ar bris tocynnau i bobl ifanc 16-18 oed sy'n byw yng Nghymru. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid ymestyn y cynllun tocynnau bws rhatach i bobl ifanc, ac mae crynodeb llawn o'r ymatebion wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Yn dilyn yr ymgynghoriad, rydym erbyn hyn wedi cwblhau'r trafodaethau gyda'r diwydiant bysiau ar fanylion cynllun gwell, a bydd rhagor o fanylion yn cael eu cyhoeddi maes o law.



# Astudiaeth Achos

Bu John* yn ei chael yn anodd cadw swydd tymor hir ers sawl blwyddyn, ac fe gafodd gymorth gan Cymunedau am Waith yn y gorffennol. Pan gafodd John ei gyfarfod cyntaf gyda'i fentor Cymunedau am Waith a Mwy, Sara*, trafododd y ddau sefyllfa John. Dywedodd John ei fod yn cael trafferth gyda chludiant i fynd i'r gwaith ac yn ôl. Ni chododd John unrhyw fater ehangach yn ymwneud â chyflogaeth. Bu Sara'n helpu John drwy fentora ar faterion fel diweddaru ei CV, cyrraedd at yr hyfforddiant angenrheidiol, a llenwi ceisiadau am swyddi. Dros y misoedd canlynol, llwyddodd John i symud ymlaen a chael swydd rhan amser.

Rhai misoedd yn ddiweddarach, cyrhaeddodd John i'w gyfarfod rheolaidd gyda Sara yn amlwg wedi cynhyrfu, ac wedi blino'n llwyr. Pan ofynnodd Sara sut oedd yn teimlo, eglurodd John bod problemau yn ei fflat yn effeithio'n ddifrifol ar ei gwsg ac ar ymweliadau rheolaidd ei ferch. Eglurodd bod tamprwydd difrifol yn y ddwy ystafell wely yn y fflat yr oedd yn ei rhentu'n breifat. Yn ystod yr wythnos, roedd John yn cysgu ar y llawr yn ei ystafell fyw. Pan fyddai ei ferch yn ymweld am y penwythnos, byddai John yn gosod gwely iddi ar soffa yr ystafell fyw, ac fe fyddai yntau'n cysgu yn yr ystafell wely lleiaf tamp. Roedd yn cael trafferth cysgu, ac yn poeni mwy a mwy y byddai'r tamprwydd yn effeithio ar iechyd ei ferch ac yn ei rwystro rhag medru ei chael i aros dros y penwythnos yn y dyfodol.

Eglurodd John wrth Sara ei fod wedi gwneud cais i gael ei osod ar restr aros tai cymdeithasol - ond nad oedd yn flaenoriaeth i gael llety dwy ystafell wely gan ei fod yn berson sengl. Cytunodd John y gallai Sara edrych ar ei sefyllfa ar ei ran. Gweithiodd Sara gyda John i gyrraedd at y cymorth angenrheidiol i wella'i sefyllfa a llenwi'r ffurflenni tai perthnasol.

Fis yn ddiweddarach, cyfarfu John â swyddog ar ran landlord tai cymdeithasol lleol. Diolch i'r atgyfeiriadau a ddaeth i law - a oedd yn egluro bod angen llety priodol ar John ar gyfer ymweliadau penwythnos ei ferch - fe gafodd John ei roi ar restr aros am eiddo dwy ystafell wely.

Er nad yw'r sefyllfa wedi'i datrys eto, mae cael lle ar y rhestr aros yn golygu bod modd iddo boeni llai ac edrych tua'r dyfodol.

Dywedodd:

"Rwy'n falch iawn i mi egluro'r sefyllfa i'm Mentor Cymunedau am Waith a Mwy, Sara. I ddechrau, doeddwn i ddim yn meddwl bod problem y tamprwydd yn fy fflat yn ddim i'w wneud â chael gwaith, felly wnes i ddim meddwl y gallai Sara fy helpu. Ond fe wnaeth hi, ac rwy'n symud ymlaen. Rydw i wedi medru stopio poeni cymaint am y cartref a chanolbwyntio mwy ar wneud yn dda yn fy swydd - byddaf yn symud i weithio llawn amser cyn hir."

## Cydleoli gwasanaethau lleol

Rhan allweddol o weledigaeth y Cynllun Cyflogadwyedd yw creu cysylltiadau gwell rhwng y gwasanaethau cyhoeddus rydym yn eu hariannu ac yn eu darparu. Rydym wedi bod yn treialu cydleoli gwasanaethau trwy Dasglu'r Cymoedd gyda golwg ar edrych sut y gellid rhannu'r dull hwn â rhannau eraill o Gymru.

Mae adroddiad cynnydd y Tasglu a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn disgrifio eu gwaith ar ganolfannau cymunedol, lle gall amryw o wasanaethau cyhoeddus ddod at ei gilydd o dan un to.[2] Maent yn gweithio ag awdurdodau lleol, y GIG a mudiadau trydydd sector ac maent wedi cynnal cyfres o ddigwyddiadau rhwydweithio i alluogi partneriaid yn y Cymoedd i rannu arferion da ac i ddatblygu canllaw ar gyfer y sawl sy'n awyddus i ddatblygu canolfannau newydd.

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi creu rhaglen i fuddsoddi mewn canolfannau cymunedol. Glynrhedynog fydd un o'r trefi cyntaf i elwa ar ganolfan gymunedol, a fydd yn gartref i ystod o wasanaethau yn y gymuned, gan gynnwys Llyfrgell Glynrhedynog ar ôl iddi gael ei hail-leoli, gwasanaethau gofal plant cynhwysfawr a rhaglenni cymorth cyflogaeth. Mae'r Tasglu yn gweithio'n agos â grŵp gweithredu parthau cymunedol y Cyngor wrth i'r gwaith hwn ddatblygu, a bydd yn rhannu dysgu'n fwy eang ar draws y Cymoedd.

Elfen ganolog o ddyluniad a llwyddiant y Porth Cyngor Cyflogaeth newydd yw cydleoli Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith, Cymunedau am Waith a gwasanaethau eraill yn y gymuned i alluogi mynediad ac atgyfeiriadau symlach i helpu unigolion i fynd ymlaen i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae Gyrfa Cymru wedi ymrwymo i adleoli ac allgymorth, gan gydnabod yr angen i symud i ble mae gan unigolion fynediad at wasanaethau eraill. Mae hon yn drefn sydd wedi'i sefydlu eu hun, gyda staff Gyrfa Cymru eisoes â phresenoldeb cryf mewn nifer o sefydliadau partner, yn enwedig Canolfan Byd Gwaith ac, yn fwy diweddar, mae wedi symud i safleoedd eraill yn y gymuned fel llyfrgelloedd a chanolfannau awdurdodau lleol.

Mae cydleoli ac allgymorth cymunedol effeithiol hefyd wedi arwain at fuddiannau sylweddol wrth gyflwyno ein rhaglenni cyflogadwyedd cymunedol. Mae hyn yn amlwg mewn rhannau o Gaerdydd a Llanelli, a Sir Gaerfyrddin, lle mae canolfannau cymunedol effeithiol wedi cael eu sefydlu i ddwyn ystod o wasanaethau cyhoeddus a phartneriaid cyflawni at ei gilydd mewn un lle. Ers mis Mawrth, mae Cymunedau am Waith wedi ymgysylltu â 191 o bobl yng Nghaerdydd, trwy amrywiaeth o ganolfannau ledled y ddinas, gan helpu 49 o bobl i waith; ac yn Sir Gaerfyrddin, trwy'r ganolfan Un Sir Gar yn Llanelli, maent wedi ymgysylltu â 38 o bobl, ac wedi helpu 26 i waith.

I hyrwyddo buddiannau cydleoli, mae rhagor o ddigwyddiadau rhanddeiliaid Cymunedau am Waith yn cael eu trefnu ar gyfer yr hydref, lle bydd timau'n gallu rhannu ymarfer da, gan gynnwys buddiannau canolfannau cymunedol 'siop un stop'.

I helpu cwsmeriaid a rhanddeiliaid sy'n defnyddio gwasanaethau Gyrfa Cymru ledled Cymru, mae Gyrfa Cymru ar hyn o bryd yn datblygu map rhyngweithiol o'u gwasanaethau cynghori (gan gynnwys lleoliadau, mathau o wasanaeth ac amseroedd). Bydd y map ar gael pan fydd y Porth Cyngor Cyflogaeth yn cael ei lansio, a bydd yn helpu i ddangos sut mae gwasanaethau'n cael eu cydleoli.

[2] Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Blwyddyn yn Ddiweddarach – Adroddiad Cynnydd 2018, **https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/taskforce-for-the-valleys/our-valleys-our-future/?skip=1&lang=cy**

## Iechyd a Chyflogadwyedd

Ym mis Mehefin eleni, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ‘Cymru Iachach’, sy’n cyflwyno ein gweledigaeth dymor hir ar gyfer y dyfodol gyda dull system gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae’n cynnwys pwyslais newydd ar ofal personol a fydd yn helpu i godi’r pwysau oddi ar ysbytai ac i leihau amseroedd aros. Yn hytrach, bydd pobl yn cael help gan ystod o wasanaethau a gweithgarwch yn y gymuned, gan adeiladu ar ganolfannau cymunedol ac ar gymorth Meddygon Teulu a gofal sylfaenol, a fydd yn cael eu personoleiddio i ateb anghenion a hoffterau pobl.

Mae’r cyfeiriad newydd hwn ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn adleisio gweledigaeth ganolog y Cynllun Cyflogadwyedd i ddarparu cymorth cyflogadwyedd personol sydd wedi’i gysylltu’n well â gwasanaethau cyhoeddus eraill. Trwy ddull traws-lywodraethol o’r fath, rydym yn gobeithio darparu gwasanaethau mwy effeithiol a chydlynus ledled Cymru.

## Peilot Cymorth Lleoli Unigol (IPS)

Mae peilot £2m newydd yn cael ei gyflwyno eleni a fydd yn edrych ar integreiddio cynghorwyr cyflogaeth mewn lleoliadau gofal iechyd i alluogi cyfranogwyr i ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl a chyflogadwyedd mewn ffordd gydlynus, sydd wedi’i haddasu ar gyfer anghenion yr unigolyn.

Gan helpu hyd at 450 o bobl, bydd y peilot yn rhoi prawf ar y model ‘Cymorth Lleoli Unigol’ (IPS) ar gyfer unigolion â chyflyrau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol sydd naill ai’n ddi-waith am y tymor byr neu ar fin colli eu gwaith oherwydd eu cyflwr iechyd. Pan fydd cleifion yn dod o hyd i waith drwy’r peilot, bydd cymorth yn cael ei gynnig hefyd i’r busnesau sy’n cyflogi’r sawl sydd wedi cymryd rhan yn y peilot.

Bydd tîm o weithwyr iechyd proffesiynol sydd wedi’u hyfforddi yn egwyddorion IPS yn gweithio â chleifion a chyflogwyr, gyda’r nod o helpu cleifion i gael ac i gadw swyddi, ac i helpu cyflogwyr i ddeall ac addasu i ofynion cyflogeion sy’n cymryd rhan yn y peilot.

Un o brif nodau’r peilot yw darparu cymorth ymarferol sy’n rhoi pwyslais ar amgylchedd y gweithle a chyflwr iechyd meddwl y claf unigol, i helpu cyflogwyr i wneud addasiadau priodol, ac i helpu cyflogwyr a chydweithwyr yn y gweithle i fod yn fwy parod i dderbyn addasiadau o’r fath. Bydd y peilot yn gweithredu mewn lleoliad clinigol gyda swyddogaeth allgymorth cryf, a gall weithio ochr yn ochr ag ymyriadau eraill Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

Gan weithio gydag Uned Gwaith ac Iechyd Llywodraeth y DU a’r Ganolfan Byd Gwaith yng Nghymru, bydd y model yn cael ei dreialu yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mae’r peilot yn gyfle arloesol i integreiddio gwasanaethau gofal iechyd a chyflogadwyedd yn well. Bydd hefyd yn cyfrannu at ein gwaith i wella canlyniadau cyflogaeth i bobl anabl.

## Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar £2.2m yn rhagor o arian cyfatebol i gefnogi cais i’r ESF i barhau i ddarparu’r Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith (IWS) tan fis Rhagfyr 2022 – prosiect holl bwysig i hybu iechyd a llesiant yn y gweithle ac sy’n cael gwared ar rwystrau rhag gweithio i rai â chyflyrau corfforol neu feddyliol.

Os bydd yn cael ei gymeradwyo gan WEFO, bydd yr arian ychwanegol yn golygu y bydd modd ehangu’r cynllun yn sylweddol i helpu hyd at 12,000 yn fwy o bobl i aros mewn gwaith a 2,500 yn fwy o fusnesau i adeiladu gweithle iach. Bydd y gwasanaeth hefyd yn cael ei ehangu i gynnwys mwy o gyflogeion mewn ardaloedd gwledig, a bydd yn mynd ati i ymgysylltu â mwy o rwydweithiau busnesau bach a gwasanaethau iechyd lleol.

Mae’r IWS yn darparu mynediad di-dâl a chyflym at therapi galwedigaethol gyda’r nod o helpu pobl â chyflyrau iechyd meddwl neu gorfforol i aros mewn gwaith.

Trwy ymyriadau therapiwtig, mae'r IWS yn helpu cyflogeion sydd ar, neu sydd mewn perygl o fod ar, absenoldeb salwch tymor hir. Mae hyn yn rhywbeth sy'n gallu cael effaith anghymesur ar berchnogion busnesau bach a chanolig, sef sector sy'n cyfrif am gyfran sylweddol o fusnesau Cymru. Mae'r gwasanaeth yn tynnu sylw cyflogwyr at effaith bositif gweithleoedd iach, yn ogystal â buddiannau ymyriadau cynnar i helpu cyflogeion â chyflyrau iechyd ysgafn i gymedrol.

Trwy ddod ag iechyd, sgiliau, cymorth busnes a chyllid at ei gilydd, mae'r cynllun hwn yn dangos potensial gweithio traws-lywodraethol effeithiol, gan olygu gweithredu positif i bobl agored i niwed mewn ffordd gydlynus ac effeithlon.

### Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid Di-waith

Mae'r Gwasanaeth Di-waith yn brosiect hanfodol arall sy'n cysylltu cyngor cyflogadwyedd â gwasanaethau iechyd ar gyfer rhai o aelodau mwyaf bregus cymdeithas a'r rhai mwyaf anodd eu cyrraedd mewn cymdeithas. Mae'r rhaglen £17.3m yn cefnogi'r rheini sydd â hanes o gamddefnyddio sylweddau a/neu salwch meddwl sy'n ddi-waith yn y tymor hir neu'n economaidd anweithgar (25 oed a hŷn), neu'n NEET (16-24 oed) i gael gwaith neu i fynd i fyd addysg.

Ers i'r rhaglen ddechrau ym mis Awst 2016, mae 217 o gyfranogwyr wedi cael gwaith erbyn hyn, mae 191 yn chwilio am waith, mae 857 wedi cael cymwysterau neu dystysgrifau cysylltiedig â gwaith, ac mae 252 yn gwneud gwaith gwirfoddol.

Gan gyfuno cymorth sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth, mentora cymheiriaid ac ymgysylltu cyn-cyflogaeth, yn ogystal ag ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a chyflogwyr, bydd Y Gwasanaeth Di-waith yn cefnogi hyd at 14,100 o bobl ledled Cymru wrth iddynt wella o broblemau camddefnyddio sylweddau a salwch meddwl erbyn yr haf 2020. Mae'r Gwasanaeth Di-waith hefyd yn cynnig cymorth pontio am hyd at dri mis i gyfranogwyr sy'n dod o hyd i waith, ac mae'n gallu cefnogi cyflogwyr sy'n chwilio am gefnogaeth a chyngor ar arferion da.

Bwriedir cynnal Cynhadledd Flynyddol ar Y Gwasanaeth Di-waith ddechrau 2019 i gydnabod gwaith Mentoriaid Cymheiriaid ac i helpu i hyrwyddo'r gwasanaeth, gan ddarparu cyfle pwysig i rwydweithio ar gyfer cyflenwyr a rhanddeiliaid allweddol.

**Cynllun hanfodol sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant yn y gweithle a goresgyn rhwystrau rhag cyflogaeth i'r rhai â chyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol.**

# Astudiaeth Achos



Fel rhan o'u Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith, wedi'i ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, mae RCS yn darparu gweithdai hanner diwrnod yn rheolaidd i helpu cyflogwyr busnesau bach a chanolig lleol i wella iechyd a llesiant yn y gweithle. Debbie Williams yw Rheolwr Cartref Preswyl Bron Haul yn y Rhyl – cartref prysur â chymuned o 37 o breswylwyr. Mae Debbie wedi mynd i nifer o weithdai er mwyn dysgu technegau i reoli straen, er mwyn helpu ei hun a'i staff.

Drwy'r gweithdai, fe ddysgodd Debbie amrywiol ddulliau a thechnegau i wella llesiant y gweithlu. Llwyddodd i gyflwyno cyfres o fesurau llesiant sydd bellach yn rhan annatod o arferion y gweithle ym Mron Haul. Yn eu plith mae 'cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith', digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd a chynllun gwobrwyo 'Gofalwr y Mis'. Mae ffurflenni llesiant yn cael eu dosbarthu i'r staff gyda manylion sut i hunanatgyfeirio i'r cynllun Cymorth yn y Gwaith os oes angen cefnogaeth gydag unrhyw bryderon iechyd sy'n golygu bod perygl i staff fod yn absennol.

Dywedodd Debbie bod y gweithdai wedi bod yn effeithiol tu hwnt i'w helpu i ddeall pwysigrwydd llesiant ar gyfer galluogi timau i gydweithio yn fwy effeithiol. Mae wedi gweld manteision clir i iechyd a llesiant y gweithlu o ganlyniad i'r newidiadau a gyflwynwyd:

"Rwy'n teimlo bod y staff yn fwy parod i drafod eu llesiant ac o bosib yn teimlo'n well ar ôl bod yn agored. Rydyn ni i gyd yn edrych ymlaen at y cyfarfod llesiant misol a 'gofalwr y mis'.

Dywedodd bod arddull a ffurf y cwrs hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer cyflogwyr prysur sy'n ceisio blaenoriaethu eu hamser:

"Fe wnaethon ni ddysgu cryn dipyn - roedd y cwrs yn un sylweddol, felly roedd yn fanteisiol cael sesiynau bach llai."

Mae dros 100 o gyflogwyr o fusnesau bach a chanolig wedi bod yn bresennol mewn gweithdai gan y Gwasanaeth Cymorth yn y Gwaith hyd yma.

## Pwysleisio cyfrifoldeb cyflogwyr i uwchsgilio eu gweithwyr, i helpu eu staff ac i ddarparu gwaith teg

**Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda busnesau i sicrhau bod cyflogwyr yn helpu eu gweithwyr yn y ffordd gywir, eu bod yn creu gweithleoedd cynhwysol ac yn cydnabod eu cyfrifoldeb i uwchsgilio eu gweithlu**

Ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Economaidd ym mis Rhagfyr 2017, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn hon i weithredu a gwreiddio elfennau allweddol y Cynllun hwn, ochr yn ochr â gweithredu'r Cynllun Cyflogadwyedd. Yn ganolog i'r gwaith hwn fu datblygu a chyflwyno model gweithredu newydd ar gyfer cymorth ariannol uniongyrchol. Y Contract Economaidd yw canolbwynt y model hwn ac mae'n fframio perthynas Llywodraeth â busnes, ar sail yr egwyddor o fuddsoddiad cyhoeddus â diben cymdeithasol. Mae'r Contract Economaidd yn gyfle i amlygu a hyrwyddo arferion busnes cyfrifol a all gefnogi ein hamcanion cyflogadwyedd, gan gynnwys gwaith teg a ffocws ar iechyd da, sgiliau a dysgu yn y gweithle. Ers lansio'r model gweithredu newydd ym mis Mai, rydym wedi cwblhau nifer o Gontractau Economaidd gyda nifer o fusnesau ledled Cymru. Rydym yn dysgu oddi wrth yr enghreifftiau hyn ac yn parhau i fireinio a gwella'n dull gweithredu i gael yr effaith fwyaf.

Fel y nodwyd yn y Cynllun Cyflogadwyedd, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r rhwydweithiau busnes allweddol i annog rhannu arferion gorau ac i drafod blaenoriaethau'r llywodraeth ar gyfer gweithlu Cymru. Ym mis Medi, cynhaliodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes fforwm trafod gyda Fforwm Polisi Cyhoeddus Cymru y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD). Roedd y digwyddiad yn gyfle i ymgysylltu â chyflogwyr amrywiol a thrafod sut y gallwn feithrin gweithleoedd mwy cynhwysol yng Nghymru a phennu rhwystrau i gyflogaeth i'r rheini â nodweddion gwarchodedig, sef un o bwyntiau gweithredu allweddol y Cynllun.

Ers mis Mawrth, mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes hefyd wedi cwrdd â nifer o gwmnïau angori Cymreig, i'w herio i wneud mwy i'w gweithwyr ac i arwain drwy esiampl, yn ogystal ag ystyried ffyrdd newydd o gydweithio.

Er enghraifft, mae Admiral yn cefnogi strategaeth gyflogadwyedd Llywodraeth Cymru drwy gymryd rhan mewn cynlluniau sy'n helpu pobl sy'n wynebu heriau a rhwystrau wrth geisio cael gwaith.

Rydym yn edrych ar y posibilrwydd y gallai Admiral ddefnyddio rhaglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru i recriwtio unigolion anodd eu cyrraedd yn uniongyrchol. Nid yn unig y byddai hyn yn cynyddu amrywiaeth eu proffil staffio ond byddai hefyd yn cynnig cyfleoedd i unigolion a fyddai fel arall yn cael trafferth cael cyfweliad.

Astudiaeth Achos



## Admiral

Y cyflogwr arobryn Admiral yw'r unig Gwmni FTSE 100 â'i bencadlys yng Nghymru, a dyma un o'r darparwyr yswiriant ceir mwyaf yn y DU. Gyda gweithlu o dros 10,000 o bobl mewn 8 o wledydd, mae pencadlys Admiral yn parhau i fod yn Ne Cymru, ac mae ganddo swyddfeydd yng Nghaerdydd, Abertawe a Chasnewydd. Dywed Admiral bod eu hymrwymiad at Gymru yn cael ei ysgogi gan ansawdd y staff sydd wedi'u recriwtio a'u cadw yn lleol.

Mae Admiral wedi ymrwymo i ymgysylltu â'r gymuned, nid yn unig gan mai dyna'r peth cywir i'w wneud, ond hefyd gan ei bod yn bwysig i gwmni sydd am recriwtio gweithwyr o safon fuddsoddi mewn rhaglenni recriwtio lleol, fel y cwrs cynefino datblygu sgiliau a fydd yn cael ei lansio'n fuan.

*Rydym yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi unrhyw fentrau sy'n gwella cyflogadwyedd pobl yn y gymuned leol, ac rydym yn edrych ymlaen at gyflwyno Cymru'n Gweithio y flwyddyn nesaf*

Mae Admiral yn adeiladu ar hanes hir o ymgysylltu â'r gymuned drwy uno gyda Llywodraeth Cymru i gysylltu rhaglenni cyflogadwyedd gyda chyfleoedd cyflogaeth. Bydd y bartneriaeth newydd hon yn helpu i ddatblygu a phrofi'r ffordd y mae'r rhaglenni yn paratoi ac yn cynorthwyo pobl i gael swyddi, gan ddarparu cyfleoedd i unigolion drawsnewid eu bywydau a diwallu anghenion cyflogwyr ar yr un pryd.

## Gweithio ag Undebau Llafur

Fel y dangoswyd yn y Cynllun, rydym am barhau i ddatblygu'r berthynas bwysig rhwng cyflogwyr, undebau llafur a llywodraeth i sicrhau newidiadau positif yn y gweithle.

Fel cynllun allweddol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Undebau Llafur, rydym yn awr yn datblygu rownd nesaf rhaglen Cronfa Ddysgu Undebau Llafur Cymru (WULF), sy'n werth £1.2m, ac a fydd yn cychwyn ym mis Ebrill 2019.

Trwy ddefnyddio gwybodaeth a rhwydweithiau'r undebau, mae'r WULF yn helpu i godi lefelau sgiliau hanfodol gweithlu Cymru trwy gael gwared ar rwystrau i ddysgwyr anhraddodiadol a meithrin partneriaethau dysgu effeithiol rhwng cyflogwyr, undebau a darparwyr hyfforddiant i greu cyfleoedd i ddysgu yn y gweithle.

Rydym yn cydweithio'n glos â chynrychiolwyr TUC Cymru i sicrhau ein bod yn ariannu prosiectau sy'n adlewyrchu pedair thema arweiniol y Cynllun Cyflogadwyedd a rhoi sylw i'r argymhellion a wnaed gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod darpariaeth yn gyson â'r blaenoriaethau sgiliau amrywiol yn y tri rhanbarth.

## Prentisiaethau

Mae ein rhaglen prentisiaethau yn parhau i chwarae rôl bwysig i gyflawni gweledigaeth Ffyniant i Bawb a'r Cynllun Cyflogadwyedd trwy helpu miloedd o bobl i waith a hybu'r ddarpariaeth sgiliau yng Nghymru.

Rydym yn gwneud cynnydd ardderchog i gyflawni ein huchelgais i greu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel yn ystod tymor cyfredol y Cynulliad. Gyda dros 24,000 wedi cychwyn ar raglenni prentisiaeth yn ystod 2016-17, ac 16,000 o bosib yn hanner cyntaf 2017/18, mae Cymru ar y ffordd at gyrraedd y targed hwn. Rydym yn parhau i weld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y dysgwyr sy'n cychwyn ar ein rhaglenni prentisiaethau, ac rydym yn awr am weld o leiaf 6,000 yn fwy o brentisiaethau bob blwyddyn sydd â phwyslais ar sgiliau mwy technegol a lefel uwch, gan ddechrau ym mlwyddyn academaidd 2018/19.

Mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan Wasanaeth y Gweithluoedd, Addysg a Datblygiad (WEDS), rydym wedi datblygu tri fframwaith newydd sydd bellach wedi eu cymeradwyo gan Fwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru (WAAB). Rydym yn gweithio ar hyn o bryd ag WEDS i'w datblygu. Mae'r fframweithiau i gyd ar lefel sgil uwch (L4+) ac yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- **Cymorth i'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd** – sy'n cynnwys gweithwyr cymorth clinigol a chynorthwywyr gofal iechyd. Bydd y fframwaith hwn yn ategu gweledigaeth gyffredinol y sector i ddatblygu gweithlu mwy medrus, hyblyg ac effeithiol gan ddiogelu gofal o ansawdd uchel a diogel i gleifion. Mae hefyd yn rhoi sylw i ganlyniadau penodol yr Asesiad Sgiliau Sector Sgiliau Iechyd 2011.
- **Therapïau Clinigol** – fel ffisiotherapi a therapïau seicolegol. Bydd y fframwaith hwn yn helpu i ddiwallu'r angen hwn, a nodwyd gan WEDS, i ddarparu cyfleoedd lefel uwch.
- **Gwyddorau Gofal Iechyd** – crëwyd ar ôl i WEDS nodi fod hwn yn faes lle mae angen fframwaith penodol. Er bod fframwaith Gwyddorau Bywyd eisoes ar L4, bydd y fframwaith hwn yn cynnwys ystod eang o yrfaoedd i'w datblygu. Bydd yr ychwanegiad hwn hefyd yn hwb i'r cyfleoedd gyrfaol sydd ar gael mewn STEM, sy'n sector blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

Hefyd, rydym yn gweithio gyda'r Swyddfa Gwasanaethau Deintyddol a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ddatblygu cymwysterau newydd a fframwaith cadarnach ar gyfer Nyrsio Deintyddol.

Rydym bellach wedi sefydlu fframwaith o ddarpariaeth prentisiaethau cwbl integredig, gan ddechrau â phrentisiaethau iau a chyfleoedd galwedigaethol yn yr ysgol i rai 14-16 oed, trwy brofiad gwaith â chymorth ac ymyriadau ar lefel coleg ar gyfer rhai 16-24 oed, bob cam at y prentisiaethau gradd newydd, a fydd ar gael yng Nghymru am y tro cyntaf o fis Medi 2018 ymlaen ar gyfer Disgyblaethau Digidol a TGCh. Yn sgil datblygiad y llwybr hwn, mae'r rhaglen prentisiaethau'n awr yn helpu'r ystod lawn o ddysgwyr i gyflogaeth, gan feithrin cenhedlaeth newydd o weithwyr proffesiynol o 14 oed.

Rydym hefyd wedi cynyddu ein hymgysylltiad â chyflogwyr i ddarparu mwy o gymorth i recriwtio prentisiaid. Rydym wedi cwrdd â nifer o gwmnïau angori, gan gyflwyno cynllun gweithredu ar y cyd gyda'r FSB i gynnal a gwella ein hymgysylltiad â BBChau. Rydym bellach wedi sefydlu Bwrdd Cynghori Prentisiaethau Cymru annibynnol newydd sy'n cael ei arwain gan gyflogwyr a fydd yn herio ac yn hyrwyddo'r cynnwys dysgu sydd yn y rhaglen brentisiaeth ac a fydd yn ymateb yn gyflym i'r galw ymhlith cyflogwyr. Cafodd pecyn cymorth cyfathrebu diwygiedig ar gyfer cyflogwyr ei gyhoeddi fis Awst ac mae'n cynnwys cymorth ac arweiniad clir sy'n berthnasol i bob cyflogwr ledled Cymru.

Yn fwyaf diweddar, rydym wedi cymryd camau i gynyddu nifer y bobl anabl a grwpiau gwarchodedig eraill sy'n dilyn prentisiaethau. Gan weithio â Remploy a'r rhwydwaith Dysgu Seiliedig ar Waith, rydym am greu gwasanaeth broceriaeth i baru'r rhai hynny sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Gweithio Iach â phrentisiaethau. Rydym hefyd wedi cyhoeddi pecyn cymorth cydraddoldeb cynhwysfawr i helpu ein darparwyr prentisiaethau, gan gynnwys modiwlau penodol ar hunaniaeth o ran rhywedd, stereoteipio a rhagfarn anfwriadol.

Bydd Cynllun Gweithredu Anabledd ar gyfer Prentisiaethau newydd yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref, ac mae'n cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â mudiadau pobl anabl a chynrychiolwyr eraill o'r sector i ganfod camau a fydd yn chwalu rhwystrau i bobl anabl sy'n ceisio cael prentisiaethau. Bydd y Cynllun yn rhoi pwyslais ar gamau ymarferol i sicrhau bod pecynnau cymorth ar gael i unigolion, cyflogwyr a'n darparwyr prentisiaethau. Bydd hefyd yn ystyried sut y gallwn wneud addasiadau rhesymol er mwyn gwneud prentisiaethau'n fwy hyblyg.

**Fel cyflogwr, mae Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i fod yn esiampl o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac rydym wedi pennu nifer o dargedau o ran y gweithlu ar ein cyfer ein hunain, i'w cyrraedd erbyn 2020, gan gynnwys**

- Cydbwysedd 50/50 rhwng y rhywiau yn yr Uwch Wasanaeth Sifil (SCS)
- 5.8% o staff anabl (o 4.9% yn 2016)
- 2.5% BAME (o 2% yn 2016)

Rydym yn gwneud cynnydd i gyrraedd ein targedau, gyda'n SCS yn cynnwys 40.5% o staff benywaidd, 5.3% o staff anabl a 2.2% o staff BAME.

Rydym yn parhau i arwain y ffordd i gyflogwyr Cymreig eraill i annog gweithleoedd amrywiol a chynhwysol, fel y gwelir yn y safonau canlynol a gyflawnwyd yn ystod 2017/18:

- Rydym ar hyn o bryd yn 12fed yng 100 Uchaf Mynegai Stonewall ar Gydraddoldeb Gweithleoedd y DU

- Dyfarnwyd y safon aur i ni yn y Safonau Polisi A:rhywedd Traws a Rhyngrywiol, ac
- Rydym yn Arweinydd Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd, ar ôl cael yr achrediad uchaf (Lefel 3).

Rydym yn ddiweddar wedi adolygu a diwygio ein holl hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer staff ac rydym yn parhau i ddarparu cyrsiau ar ragfarn anfwriadol a hyderus o ran anabledd. Rydym hefyd wedi adolygu ein prosesau ar gyfer absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb rhiant a rennir, wedi llunio canllaw anneuaidd, ac wedi adolygu ein prosesau recriwtio ar gyfer iaith gynhwysol i annog ymgeiswyr amrywiol.

## Meithrin gwaith teg a gwell gweithleoedd

### Ymgysylltu â chyflogwyr ar anableddau

Mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes bellach wedi cwrdd â nifer o gwmnïau angori Cymreig i'w herio i greu gweithleoedd mwy cynhwysol ac i chwilio am ffyrdd o weithio â'n gilydd i helpu mwy o bobl ag anableddau a chyflyrau iechyd tymor hir i waith.

Yn y cyfarfodydd hyn, tynnodd y cyflogwyr sylw at yr angen am ragor o help gan Lywodraeth i'w helpu i recriwtio pobl anabl, gan gynnwys llwybr cliriach at y mecanweithiau cymorth presennol.

Mewn ymateb i hyn, rydym yn awr yn edrych ar y posibilrwydd o greu broceriaeth rhwng cyflogwyr mawr a phobl anabl ar ein rhaglenni cymorth, mewn ffordd debyg i'r cymorth ymarferol a ddarperir gan y rhaglen Esgyn, a fyddai'n helpu pobl anabl i gael cyfweliadau â chwmnïau mawr.

Yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes â grŵp Diddordeb Arbennig mewn Amrywiaeth newydd y Fforwm Canolfannau Galwadau ym mis Mehefin, rydym wedi datblygu adran newydd o'r Porth Sgiliau Busnes yn bwrpasol i annog cyflogwyr i recriwtio mwy o bobl anabl.

Am y tro cyntaf erioed, bydd y platfform yn dwyn ynghyd y manylion am yr holl wasanaethau cymorth sydd ar gael i gyflogwyr a gwybodaeth ymarferol i helpu i recriwtio pobl ag anableddau. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gynllun Mynediad i Waith y DWP ac, ar gyfer busnesau llai, manylion cyswllt eu Cynghorydd Cyflogwyr Bach, ac mae naw o'r rhain ar gael yng Nghymru. Mae'r platfform hwn yn siop un stop hygyrch a hwylus ar gyfer cyflogwyr, sydd â'r nod o roi gwell dealltwriaeth o anabledd ac mae'n disgrifio sut y gall cyflogwyr gymryd camau positif i sicrhau mwy o amrywiaeth yn eu gweithlu **businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/cyflogi-pobl-anabl**

Bydd yr wybodaeth a'r cymorth a gyflwynir yma'n annog ac yn hybu gwell dealltwriaeth o anabledd a bydd yn dangos i gyflogwyr sut y gallant ddatblygu eu harferion recriwtio a chyflogi i wella rhagolygon swydd a gyrfa i bobl anabl.

Mae Busnes Cymru yn darparu ystod o gymorth i'r sawl sy'n ystyried sefydlu busnes, cyn cychwyn, neu yng nghamau cyntaf sefydlu busnes, gan gynnwys amrywiaeth o weithdai a chymorthfeydd galw i mewn, yn ogystal â gwasanaethau cynghori digidol, wyneb yn wyneb a dros y ffôn. Mae cronfa hyblyg Cymryd Rhan Ddewisol Busnes Cymru – ar gael i helpu unigolion i oresgyn unrhyw rwystrau maent yn eu hwynebu wrth geisio manteisio ar wasanaethau Busnes Cymru. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer pobl anabl.

## Cydraddoldeb rhywiol

### Adolygiad Cyflym

Mae cam gyntaf yr Adolygiad Cyflym o'n polisïau rhywedd a chydraddoldeb, a gynhaliwyd gyda chefnogaeth Chwarae Teg a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, wedi'i gwblhau.

Cafodd adroddiad ar ganfyddiadau cychwynnol yr adolygiad ei gyhoeddi fis Gorffennaf, ac roedd yn cynnwys asesiad o ymagwedd systematig Llywodraeth Cymru

# Astudiaeth Achos




Ceisiodd Angharad Mary Long, 27 oed, o Blasmarl yn Abertawe, guddio'r nam oedd ganddi ar ei chlyw oddi wrth y disgyblion eraill gan ei bod hi'n poeni am gael ei bwlio, a chafodd drafferth trwy gydol ei bywyd yn yr ysgol oherwydd hynny. Gadawodd Angharad addysg amser llawn yn ddeunaw oed ar ôl llwyddo yn ei harholiadau safon uwch ond roedd yn ansicr pa lwybr i'w ddilyn. Datblygodd ddiddordeb yn y sector gofal ar ôl treulio amser yn gofalu am ei thad-cu, felly ar ôl treulio amser yn ystyried ei dewisiadau, roedd i'w weld yn ddewis amlwg iddi hi.

Dechreuodd weithio ar gyfer Gwasanaethau Gofal Care Watch yn 2014 fel gweithiwr cymorth gofal cartref, a bu'n gweithio gyda'r cwmni am ddeuddeg mis cyn cael ei chyflwyno i'r syniad o wneud prentisiaeth.

Ar ôl cael gwybod mwy am y profiad ymarferol a'r cymwysterau y byddai'n eu cael fel rhan o'r brentisiaeth, bachodd Angharad ar y cyfle i wneud cais. Yn ffodus iawn daeth llwyddiant i'w rhan ac fe'i derbyniwyd ar y rhaglen brentisiaeth gydag Aspiration Training Ltd.

Nawr, dair blynedd yn ddiweddarach, mae Angharad wedi cwblhau ei phrentisiaethau Lefel 2 a 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac mae'n gweithio fel gweithiwr gofal iechyd cwbl gymwys, gan ddarparu gofal preifat yn y gymuned. Nawr ei bod hi wedi cymhwyso ers rhai blynyddoedd, mae hi'n edrych ymlaen at fynd ymlaen i astudio nyrsio yn y coleg erbyn hyn ac yn gobeithio mynd i'r brifysgol yn y dyfodol. Mae'n dweud mai ei phrentisiaeth fu'r sbardun i'w helpu i gychwyn gyrfa lwyddiannus yn y sector gofal.

Dywedodd: "Pan wnes i adael addysg amser llawn, doeddwn i ddim yn siŵr beth oeddwn i eisiau ei wneud. Roedd yr ysgol yn amser anodd i mi, ond ers gadael, rwy'n teimlo bod pobl wedi bod yn fwy parod i dderbyn y nam ar fy nghlyw ac wedi fy nghefnogi i yn fy nyheadau gyrfa yn hytrach na'm herlid."

"Rhoddodd fy mhrentisiaeth yr holl brofiadau a sgiliau ymarferol oedd eu hangen arnaf fi i fod yn hyderus wrth weithio gyda phobl hŷn a gofalu amdanyn nhw, yn ogystal â rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r diwydiant i mi hefyd oedd ei hangen i mi ddeall y problemau ehangach.

"Nawr fy mod i wedi cwblhau fy mhrentisiaeth, dwi'n awyddus nawr i barhau i ddysgu a datblygu fy sgiliau a'm cymwysterau trwy symud ymlaen i ddilyn cwrs nyrsio yn y coleg. Dwi'n gobeithio hefyd, gyda chymwysterau ychwanegol, y bydd yn agor drysau i fwy o gyfleoedd fel gweithio dramor."

Ariennir y Rhaglen Brentisiaeth yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

at rywedd, fel lluniwr polisïau ac fel sefydliad. Mae'r adroddiad yn cynnwys sawl argymhelliad ar gyfer ail gam yr adolygiad, gyda'r nod o roi agweddau at rywedd yng nghalon gwaith y llywodraeth. Mae'r gwaith ar yr ail gam yn digwydd yn awr i roi sylw i'r heriau a nodwyd ac i arwain ar y newid systematig angenrheidiol. Bydd grŵp llywio, o dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Tŷ, yn cwrdd ym mis Hydref i helpu i ddatblygu'r gwaith hwn.

### Cydraddoldeb LGBT

Rydym yn parhau i gydweithio'n glos â Stonewall a mudiadau cydraddoldeb eraill i sicrhau cynnydd o ran cynnwys lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol a thraws yn y gweithle.

Trwy'r Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant, rydym wedi ariannu Stonewall am 3 blynedd (2017-2020) i weithredu fel y corff cynrychioliadol ar gyfer pobl LGBT yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau bod llais pobl LGBT yn cael ei glywed. Un o weithgareddau craidd hyn fydd ariannu Cynllun Lleoliadau Pobl Ifanc sy'n creu cyfleoedd i bobl LGBT ifanc i gael lleoliadau gwaith.

Ers mis Mawrth, mae Stonewall wedi lleoli 13 o bobl ifanc ychwanegol â 6 o sefydliadau, gan gynnwys un lleoliad yn y Gogledd.

### Menywod ym meysydd STEM

Mae gweithgor newydd wedi'i sefydlu o dan fwrdd Menywod mewn STEM Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei arwain gan Arweinydd y Tŷ. Bydd y grŵp newydd hwn yn mynd ati i weithredu camau Llywodraeth Cymru ar draws y llywodraeth a ddeilliodd o'r adroddiad annibynnol 'Menywod Dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus' a bydd yn helpu ein partneriaid i gyflawni pob un o'r 33 o argymhellion i wella addysg, recriwtio, cadw a dyrchafu genethod a menywod i bynciau a gyrfaoedd STEM.[3]

Byddwn yn parhau i gefnogi a hwyluso ystod o gynlluniau a fydd yn arwain at newid sylfaenol i oresgyn y bwlch hwn rhwng y rhywiau yn y sector. Dyfarnwyd £8.4m o arian yr UE i brosiectau sy'n helpu i gynyddu a hybu cyfranogiad mewn STEM yng Nghymru. Mae'r hyn yn cynnwys y cynllun STEM Cymru 2, sy'n werth £4m, yn cael ei ategu gan £3.2m o arian yr UE i gynyddu cyfranogiad ac i gadw pobl ifanc mewn pynciau STEM ac mae'n anelu at gyfradd gyfranogi o 56% ymhlith menywod. Ers mis Mawrth eleni, mae ychydig dros 700 o bobl ifanc wedi dechrau cael cymorth ac mae tua 165 o unigolion wedi cwblhau hyfforddiant mewn pynciau STEM.

Mae'r £8.4m o arian yr UE hefyd yn cynnwys £5.2m o arian gan yr UE a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf ar gyfer £1.9m i STEM Gogledd a £5.3m ar gyfer Technocamps i annog pobl ifanc, yn enwedig genethod, i astudio pynciau STEM yn yr ysgol. Yn ystod y pedair blynedd nesaf, bydd STEM Gogledd yn gweithio â 600 o bobl ifanc, gyda 60% ohonynt yn fenywod, i gyfoethogi a hyrwyddo astudiaethau STEM mewn TGAU a thu hwnt trwy ystod o weithgareddau a fydd yn ategu'r cwricwlwm prif ffrwd mewn ysgolion ledled Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy. Bydd Technocamps 2 yn gweithio â 3,600 o bobl ifanc ledled y Gorllewin, y Gogledd a Chymoedd y De, gyda dau draean ohonynt yn fenywod. Bydd yn targedu ysgolion uwchradd nad ydynt ar hyn o bryd yn cynnig cyfrifiadureg fel opsiwn TGAU, neu lle nad oedd y pwnc ar gael tan yn ddiweddar. Bydd y prosiect yn galluogi disgyblion yn yr ysgolion hyn i gymryd rhan mewn gweithdai i adeiladu ar eu gwybodaeth a'u brwdfrydedd tuag at TG a chyfrifiadura.

[3] Adroddiad 'Menywod Dawnus ar gyfer Cymru Lwyddiannus', 2016, https://gov.wales/docs/det/report/160308-women-in-science-cy.pdf

### Cefnogi'r Sector Gofal Plant

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddwyd ein cynllun 10 mlynedd gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar. Mae'r cynllun yn cydnabod rôl holl bwysig y sector gofal plant fel galluogwr economaidd i helpu rhieni a gofalwyr i aros mewn gwaith ac mae'n cynnwys ymrwymiad i fuddsoddi yn y sector fel blaenoriaeth i hybu twf a chynaliadwyedd.

Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, rydym ar hyn o bryd yn rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi i helpu i feithrin capasiti a gallu ar draws y sector ac i alluogi'r sector i fanteisio ar y cyfle sydd ar gael yn sgil yr ymrwymiad yng Nghynnig Gofal Plant Ffyniant i Bawb.

Gan weithio gyda Busnes Cymru, fe wahoddwyd ceisiadau i gronfa grant newydd gwerth £100,000, a fydd yn helpu busnesau gofal plant i gynyddu eu lleoedd gofal plant neu i gefnogi busnesau newydd. Mae'r arian hwn ar gael hefyd i warchodwyr plant sy'n unigolion hunangyflogedig.

Rydym ar y ffordd i gyflwyno cyfres newydd o gymwysterau gofal plant ar draws lefelau 2-5 erbyn Medi 2019, mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru a Chymwysterau Cymru i fwrw ymlaen a'r gwaith hwn. Bydd gan y cymwysterau newydd hyn rôl allweddol i'w chwarae i hyfforddi ac uwchsgilio'r sector, gan gynnig llwybrau gyrfa mwy eglur a sgiliau a gwybodaeth drosglwyddadwy rhwng y sectorau iechyd, gofal plant ac addysg.

Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu ymgyrch i recriwtio a chadw staff i gefnogi'r gwaith o feithrin gallu a chapasiti ar draws y sector.

### Prosiect Childcare Works

Gan weithio gyda Chymdeithas Meithrinfeydd Dydd Cymru (NDNA), rydym wedi bod yn edrych ar ffyrdd arloesol newydd o recriwtio i'r sector gofal plant ac i ddatblygu'r prosiect Childcare Works.

Nod Childcare Works yw helpu'r sawl sydd â'r sgiliau a'r ymddygiad angenrheidiol i weithio yn y maes gofal plant i ddysgu'r sgiliau rhagarweiniol angenrheidiol i gael mynediad i'r sector ac i barhau â hyfforddiant ffurfiol. Rydym yn awr yn rhedeg dau brosiect bychan mewn rhannau o'r De a'r Gogledd, gyda'r nod o helpu unigolion di-waith ac economaidd anweithgar, gan gynnig lleoliadau tymor byr iddynt â darparwyr gofal plant sefydledig.

Mae'r prosiect wedi cynhyrchu nifer o ganlyniadau positif, sy'n cynnwys cyfranogwyr sydd wedi cael cynnig swyddi a'r cyfle i barhau â'u hyfforddiant ffurfiol mewn gofal plant ac i ddilyn gyrfa mwy tymor hir yn y sector. Rydym yn awr yn ystyried sut y gellid datblygu'r dull hwn ymhellach a'i alinio â'r dull a ddefnyddir yng Nghymru'n Gweithio a datblygiad y Porth Cyngor Cyflogaeth.

### Ehangu'r Cynnig Gofal Plant

Ar 18 Mehefin, gwnaethom gyhoeddiad y bydd 7 awdurdod lleol arall yn treialu Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru o Fedi 2018, gan gynnwys Conwy, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Torfaen, Casnewydd a Chaerdydd. Mae hyn yn ychwanegol at y 7 awdurdod lleol a ddechreuodd dreialu'r Cynnig ym Medi 2017.

Mae'r Cynnig yn rhoi 30 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n cael ei ariannu gan y llywodraeth ar gyfer rhieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar i dreialu agweddau amrywiol y Cynnig ac i ddatblygu atebion arloesol i unrhyw rwystrau sy'n dod i'r amlwg, gan rannu'r hyn maent yn ei ddysgu ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru. Rydym yn rhagweld y bydd pob awdurdod lleol yn treialu'r Cynnig i ryw raddau o Fedi 2019 ymlaen, cyn cyflwyno'r rhaglen yn genedlaethol o Fedi 2020.

# Astudiaeth Achos



Roedd Sally'n unig riant ar dri o blant bach ac roedd wedi bod ar gymhorthdal incwm am 8 mis. Cafodd ei chyfeirio at y Rhaglen Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) gan ffrind a oedd eisoes yn cael cymorth drwy'r rhaglen. Fe wnaeth ei chynghorydd PaCE asesu ei sgiliau a'i chyfeirio at yr hyfforddiant yr oedd ei angen arni drwy gontract hyfforddi ACT, a gomisiynwyd gan PaCE. Gwnaeth PaCE dalu costau gofal plant Sally wrth iddi hyfforddi. Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, roedd wedi gallu dechrau ei busnes ei hun fel Ymgynghorydd TG hunangyflogedig, a llwyddodd i gael ei chontract cyntaf gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Nid oedd Sally'n gwybod am y Cynnig Gofal Plant ac felly fe wnaeth ei chynghorydd PaCE ei helpu i wneud cais amdano a chael cyllid i'w helpu gyda chostau gofal plant cofleidiol ar ôl iddi ddechrau gweithio. Drwy ddod yn hunangyflogedig, roedd Sally'n gallu dewis gweithio oriau hyblyg a oedd yn caniatáu iddi dreulio mwy o amser gyda'i phlant. Erbyn hyn mae Sally yn ymgymryd â hyfforddiant pellach drwy brosiect Cymunedau am Waith a Mwy er mwyn datblygu rhagor o sgiliau hanfodol i'w helpu i ddatblygu ei chwmni newydd.

# Ymateb i fylchau mewn sgiliau yn awr ac yn y dyfodol

## Y Gronfa Datblygu Sgiliau

Mae Cronfa Datblygu Sgiliau newydd gwerth £10 miliwn wedi cael ei lansio i hybu'r ddarpariaeth sgiliau'n rhanbarthol ac i dargedu bylchau sgiliau mewn swyddi penodol fel yr amlygwyd gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSP). Nod y gronfa yw ailgyflwyno darpariaeth rhan amser yn benodol, i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth i'r di-waith ac i uwchsgilio rhai mewn swyddi cyflog isel.

Gwahoddwyd cynigion o bob rhan o Gymru gyda Cholegau Addysg Uwch yn cydweithio'n glos â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol ar y blaenoriaethau allweddol ar gyfer pob rhanbarth. Bydd y cynigion llwyddiannus yn gallu dechrau darparu ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19 fis Medi eleni.

## Adolygu Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol (RSP)

Rydym yn cydnabod y rôl holl bwysig sydd gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i'w chwarae i bennu blaenoriaethau rhanbarthol strategol, gan weithio'n glos gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid. Maent yn bartner allweddol yn y gwaith o weithredu'r dull datblygu economaidd rhanbarthol a nodir yn ein Cynllun Gweithredu Economaidd ac maent yn helpu i sicrhau bod cymwysterau a safonau galwedigaethol yn diwallu anghenion economi Cymru wrth iddynt newid.

Dyna pam yr ydym wedi ymrwymo yn y Cynllun Cyflogadwyedd i gryfhau trefniadau llywodraethu ar arbenigedd y Partneriaethau i sicrhau eu bod yn gallu cynnig arweinyddiaeth yn rhanbarthol a gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur i ddylanwadu'n effeithiol ar y ddarpariaeth sgiliau ym mhob rhanbarth.

Cafodd adolygiad annibynnol i drefniadau llywodraethu'r Partneriaethau ei gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio â'r Partneriaethau i weithredu'r argymhellion. Yn benodol, o ganlyniad i'r adolygiad, rydym wedi comisiynu Adroddiadau Blynyddol byrrach, mwy cryno a dealladwy gan y Partneriaethau ar gyfer 2018. Bydd yr adroddiadau hyn, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru ym mis Awst, yn cynnig sail dystiolaeth fwy effeithiol a thryloyw o'r galw ymhlith cyflogwyr i ategu'r argymhellion ar gyllido.

Bydd adroddiadau ac argymhellion y Partneriaethau'n cael eu cwblhau ym mis Medi, a byddant yn sail i'r ddarpariaeth sgiliau, yn benodol defnyddio dysgu seiliedig ar waith a chyllid prentisiaethau ar gyfer 2019-20. Bydd y Partneriaethau'n cynnig digwyddiadau lledaenu gwybodaeth rhanbarthol cyn diwedd 2018 i rannu ac i dynnu sylw at eu hadroddiadau ymhlith cyflogwyr a rhanddeiliaid.

Rydym yn parhau i werthfawrogi'r her gan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB) sy'n cael ei arwain gan y cyflogwyr. Mae WESB yn adrodd i'r Cyngor Datblygu Economaidd i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael persbectif strategol gwell ar gyflogadwyedd a sgiliau yn ogystal â chysylltiadau cryfach â busnesau, mentrau cymdeithasol ac undebau llafur. Cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf â rhanddeiliaid ym mis Gorffennaf, lle daeth rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y DWP i ymuno â WESB i drafod gweithredu'r Cynllun Cyflogadwyedd.

## Gwell Defnydd o Wybodaeth am y Farchnad Lafur

Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i gyflenwi rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys Sefydliadau Addysg Bellach a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol) â phecynnau cymorth rhyngweithiol i ddadansoddi Gwybodaeth am y Farchnad Lafur. Bydd y rhain yn galluogi ein partneriaid i wneud penderfyniadau gwell, ar sail tystiolaeth, ac i baru'r ddarpariaeth yng Nghymru'n well â'r hyn sydd ei angen yn y farchnad lafur.

Bwriedir i'r pecynnau cymorth hyn:

- Ddadansoddi gwybodaeth am y farchnad lafur leol a rhanbarthol mewn ffordd sy'n fwy hygyrch ac sy'n galluogi defnyddwyr i'w defnyddio i ddiwallu eu hanghenion penodol, gan eu galluogi i gynhyrchu allbynnau wedi'u teilwra, gan gynnwys amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol. Dylai hyn ychwanegu gwerth at yr wybodaeth bresennol am y farchnad lafur leol a rhanbarthol sy'n cael ei chyhoeddi eisoes gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill.
- Defnyddio technegau echdynnu data i ddarparu gwybodaeth amserol ar y sgiliau mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt (h.y. mewn hysbysebion am swyddi) ac, o bosibl, sy'n cael ei chyflenwi gan unigolion.

Mae Gwahoddiad i dendro'n cael ei gyhoeddi a disgwylir y bydd contract yn cael ei ddyfarnu ym mis Rhagfyr 2018.

## Cymorth sgiliau i ardaloedd gwledig Cymru

Yn dilyn cyfarfod â Chymdeithas y Tirfeddianwyr ym mis Awst, mae nifer o gamau'n cael eu cymryd i helpu i ddatblygu sgiliau gwledig. Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu Cymwysterau Cymru i gynnal adolygiad o gymwysterau gwledig. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn datblygu cymorth ar gyfer gweithwyr sy'n cael eu hadleoli os na cheir cytundeb Brexit. Bydd y cymorth hwn yn cael ei drosglwyddo i Gymru'n Gweithio o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Bydd ymgyrch farchnata sgiliau gwledig yn helpu i hybu newid mewn diwylliant yn yr economi wledig a bydd yn herio safbwyntiau traddodiadol. Yn olaf, byddwn yn gweithio gyda Chymdeithas y Tirfeddianwyr a darparwyr ledled Cymru i adolygu rhaglenni Datblygu Proffesiynol Parhaus i asesu a yw'r cyrsiau presennol yn ateb y galw, yn enwedig i newydd-ddyfodiaid.

## Adolygiad Cyllido Addysg Bellach

Rydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiad radical o'n fformwla i gyllido Addysg Bellach i roi sylw i newidiadau demograffig mawr yn y ddarpariaeth Addysg Bellach. Gan gydweithio'n agos ag uwch reolwyr Addysg Bellach a phenaethiaid colegau, rydym yn bwriadu adolygu'r cylch cynllunio a chyllido presennol i wneud y system yn fwy effeithlon a hyblyg i ddiwallu anghenion lleol, yn unol ag argymhellion a wnaed gan y Partneriaethau. Rydym yn bwriadu gweithredu newidiadau o flwyddyn academaidd 2019/20 ymlaen.

Rydym yn ystyried diwygio nifer o feysydd fel rhan o'r adolygiad hwn, gan gynnwys:

- **dyraniadau llawn amser**: datblygu system i gysylltu cyllido'n agosach at y galw tebygol am addysg bellach ym mhob ardal. Rydym am ddarparu cyllid sy'n seiliedig ar ragolwg o nifer y dysgwyr llawn amser ym mhob Sefydliad Addysg Bellach; ei gwneud yn debycach i ddyraniadau Chweched Dosbarth Awdurdodau Lleol i gael paredd rhwng y ddau sector; ystyried y newidiadau demograffig yn y garfan 16-19 oed yn flynyddol; a defnyddio cyfartaledd treigl tair blynedd yn y rhagolwg o niferoedd i roi sefydlogrwydd ac i osgoi cynnydd neu leihad mawr yn y cyllid o flwyddyn i flwyddyn;
- **dyraniadau rhan amser:** i gywiro anghydraddoldeb yn y ddarpariaeth ran amser ledled Cymru, byddwn yn edrych ar y cynnig i rannu'r dyraniad rhan amser ar sail poblogaeth; naill ai fesul coleg, neu'n ôl rhanbarthau, er mwyn rhoi mwy o ystyriaeth i newidiadau yn y boblogaeth oedolion dros amser yn fwy effeithiol;
- **y codiad amddifadedd:** darparu adnoddau ychwanegol i helpu dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn addysgol;
- **codiad ardaloedd tenau eu poblogaeth**: darparu model hawliad dysgwyr i sicrhau bod gan ddysgwyr o ardaloedd tenau eu poblogaeth yr un mynediad at gwricwlwm eang a gwneud lwfans ar gyfer dosbarthiadau llai mewn ardaloedd lle mae dwysedd y boblogaeth yn isel;

- **adolygiad o gyllid i Fagloriaeth Cymru**: rydym yn cynnig ariannu BC fel cymhwyster ar wahân am y tro cyntaf ac i'r cyllid gyfateb i Lefel A, a bydd hyn yn gymwys i raglenni academaidd ar gyfer 2019/20, i'w adolygu ar gyfer 2020/21;
- **adolygiad o'r broses gynllunio**: ystyried y set ddiweddaraf o ganlyniadau Partneriaethau, a fydd yn weithredol ym mis Medi eleni. Ar gyfer cylch cynllunio rhanbarthol 2019/20, byddwn yn gofyn i Bartneriaethau ddarparu aliniad 3 blynedd ar gyfer argymhellion llawn amser a phrentisiaethau ac i ymgysylltu mwy â cholegau a helpu i ddatblygu blaenoriaethau rhanbarthol ar lefel maes pwnc sector, gyda phwyslais ar raglenni penodol lle bydd angen, ymhlith cynigion eraill.

## Lefelau T yn Lloegr

Rydym yn monitro'n ofalus y cynnydd i gyflwyno cymwysterau technegol newydd, neu 'lefelau T', yn Lloegr. Rydym eisoes wedi ymgysylltu â Chymwysterau Cymru ar ei effaith ar Gymru a bu gohebu rhwng Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ac Anne Milton, y Gweinidog Sgiliau a Phrentisiaethau, i dynnu sylw at ein pryderon a'r angen i gymwysterau fod yn drosglwyddadwy.

## Y Gymraeg fel sgil

Ym mis Mai, lansiwyd 'Cymraeg Byd Busnes' i wireddu ein huchelgais i gael mwy o gydnabyddiaeth i'r Gymraeg fel sgil ymhlith cyflogwyr, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae'r prosiect wedi sefydlu rhwydwaith o swyddogion sy'n gweithio ledled Cymru i helpu cyflogwyr i integreiddio defnydd o'r Gymraeg yn eu busnesau ac i ddatblygu eu gwasanaethau Cymraeg ar gyfer cwsmeriaid.

Rydym yn parhau i gefnogi prosiectau a phartneriaid i ddatblygu argaeledd darpariaeth ôl-16 oed trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae bwrdd cynghori ôl-16 oed cyfrwng Cymraeg newydd wedi'i sefydlu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sy'n dod â rhanddeiliaid arbenigol at ei gilydd i gynghori ar ymyriadau yn y dyfodol. Mae'r bwrdd wedi cwrdd yn rheolaidd ac mae wrthi'n datblygu cynllun gweithredu ar gyfer hybu'r ddarpariaeth ôl-16 oed drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn partneriaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru. Mae'r bwrdd bellach wedi cyflwyno ei adroddiad cyntaf i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. Bydd y cynllun gweithredu'n datblygu'n gynllun cyflawni llawn erbyn yr hydref, a bydd yn cynnwys camau penodol i gynyddu argaeledd cymwysterau galwedigaethol yn Gymraeg.

Hefyd, mae prosiect ymchwil ar waith gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i fapio argaeledd deunyddiau dysgu galwedigaethol cyfrwng Cymraeg, ac mae ymchwil i agweddau dysgwyr ôl-16 oed at y Gymraeg wedi ei gwblhau gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac a fydd yn goleuo ein gwaith yn y maes hwn.

## Cynllunio'r gweithlu – y GIG a Gofal Cymdeithasol

Fel yr amlinellwyd yn ein cynllun iechyd a gofal cymdeithasol newydd, 'Cymru Iachach', rydym wedi ymrwymo i wneud GIG Cymru yn enghraifft o gyflogwr da trwy hybu llesiant yn y gwaith a gweithlu iachach. Bydd ein dull cenedlaethol yn rhoi pwyslais ar wella sgiliau'r gweithlu yn gysylltiedig ag atal a llesiant, sy'n cael ei ategu gan wella sgiliau cyffredinol, a fydd yn helpu unigolion i addasu ac arallgyfeirio trwy gydol eu gyrfaoedd. Byddwn yn sefydlu partneriaethau strategol rhwng yr holl sefydliadau gofal iechyd a darparwyr addysg, i feithrin galluoedd mewn meysydd craidd trwy gyfrwng nifer fach o academïau dysgu dwys sy'n rhoi pwyslais ar gyflawni galluogrwydd proffesiynol y bydd eu hangen arnom yn y dyfodol.

Mae'r ymgyrch genedlaethol 'Hyfforddi, Gweithio, Byw' eisoes wedi dechrau gwneud gwahaniaeth i recriwtio yn y GIG, ond mae angen gwneud mwy. Byddwn yn

sicrhau bod byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn gweithio â'i gilydd i sefydlu ymgyrchoedd ar y cyd; i ganfod anghenion recriwtio a staffio sy'n gyffredin iddynt a datblygu pecynnau cyflogaeth atyniadol a all helpu i ddenu unigolion a theuluoedd i hyfforddi, byw a gweithio mewn cymunedau Cymreig.

O dan arweiniad Gofal Cymdeithasol Cymru, rydym yn datblygu strategaeth benodol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol, a fydd yn cael ei lansio'n ffurfiol yng ngwanwyn 2019, ac a fydd yn nodi ac yn ceisio rhoi sylw i holl ofynion y gweithlu a gofynion sgiliau'r dyfodol. Bydd y strategaeth yn cael ei datblygu trwy weithio ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i gynllunio'r gweithlu'n effeithiol ar draws yr holl sector iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd cysylltiad amlwg â'r ymgyrch genedlaethol i ddenu, cadw a recriwtio a fydd yn hybu gwedd bositif ar ofal cymdeithasol fel lle pwysig a boddhaus i weithio. Yn fwy diweddar, fel rhan o'n gwaith i godi statws a phroffil y gweithlu gofal cymdeithasol, cafodd cofrestr y gweithlu ei hehangu ym mis Ebrill 2018 i gynnwys gweithwyr gofal cartref ar delerau gwirfoddol, cyn i gofrestru gorfodol ddod i rym yn 2020.

Hefyd, mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn cydweithio'n glos â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan' ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol newydd, a lansiwyd ym mis Ebrill 2018. Mae'r fframwaith sefydlu newydd yn cael ei dreialu ym mwrdd iechyd Hywel Dda yn 2018-19, cyn ei gyflwyno i weddill y wlad. Mae hyn yn rhan o'r gwaith i ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol ar lefelau 2 i 5, a fydd yn helpu i greu llwybrau gyrfa ar draws y sector.

# Astudiaeth Achos




Mae Laura Green, 21 oed, yn disgrifio ei hun fel merch ‘ymarferol’ ac wrth dyfu i fyny roedd ganddi ddiddordeb mewn ceir, mecaneg a sut mae rhoi pethau gyda’i gilydd. Gadawodd yr ysgol ar ôl ei TGAU heb fawr o syniad beth roedd am ei wneud nesaf, ond yn gwybod nad oedd am ddilyn y llwybr academaidd.

Ar ôl clywed mwy am brentisiaethau, gwnaeth Laura gais am leoliad gydag Airbus ym Mrychdyn. Nawr, mae hi ran o’r ffordd drwy brentisiaeth lefel tri mewn peirianneg awyrenegol, yn helpu i greu adenydd ar gyfer awyrennau.

Meddai Laura: “Rydw i wastad wedi bod yn hapusach yn gwneud pethau gyda fy nwylo. Rydw i wrth fy modd gyda mecaneg a threuliais lawer o’m plentyndod yn dysgu sut i wneud a thrwsio darnau ceir. Doeddwn i ddim wir yn ymwybodol o brentisiaethau, ac roeddwn i’n gwybod nad oedd Safon Uwch i mi, felly gadewais yr ysgol ar ôl TGAU a gweithio fel achubwr bywydau mewn pwll nofio lleol.

“Ar ôl blwyddyn neu ddwy, sylweddolais nad oeddwn i’n mynd i allu symud ymlaen fel achubwr bywyd ac roeddwn i am gael gyrfa go iawn. Erbyn hynny roeddwn i’n gwybod mwy am brentisiaethau, ac ar ôl darllen ychydig a mynd i ambell ddiwrnod agored, penderfynais mai prentisiaeth oedd y ffordd orau ymlaen i mi. Roeddwn i’n hoffi’r syniad o ddysgu yn y swydd tra’n ennill cyflog ar yr un pryd.”

Gwnaeth Laura gais am brentisiaeth ym maes peirianneg awyrenegol gydag Airbus drwy Goleg Cambria ar Lannau Dyfrdwy. Mae bellach yn gweithio fel Prentis Crefftau Awyrenegol yn yr adran systemau, yn gyfrifol am adeiladu adenydd ar gyfer awyrennau.

Aeth Laura ymlaen: “Roeddwn i ar ben fy nigon pan gefais gynnig diamod am brentisiaeth gan Airbus. Rydw i wedi cael y cyfle i weithio mewn gwahanol adrannau yn dysgu mwy am y broses gynhyrchu yn gyffredinol. Rwy’n bwrw fy mhrentisiaeth yn yr adran systemau, yng nghanol yr hydroleg, nwy a rhaglennu adenydd awyrennau, ond rydw i hefyd wedi bod ar leoliadau yn yr adran strwythur sy’n ymwneud mwy â phaneli’r adenydd a sut maen nhw’n cael eu hadeiladu.

“Rydw i’n pwyso a mesur symud ymlaen i lefel 4 neu brentisiaeth gradd o bosib. Rydw i’n hoffi’r syniad o weithio fy ffordd i fyny i swydd rheolwr neu dderbyn hyfforddiant pellach mewn cynnal a chadw awyrennau byw. Mae posibilrwydd hefyd i weithio dramor yn un o ganolfannau eraill Airbus yn yr Almaen, Ffrainc neu Sbaen.

“Dyw dysgu academaidd ddim i bawb, ond mae gan bobl sydd ddim yn academaidd sgiliau a doniau mewn meysydd eraill. Mae fy mhrentisiaeth wedi agor sawl drws i mi, a dyma’r peth gorau i mi ei wneud erioed.”

Mae Rhaglen Prentisiaethau Cymru yn cael ei chyllido gan Lywodraeth Cymru gyda chefnogaeth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

## Rydym eisiau ysbrydoli a helpu'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid ifanc yng Nghymru

Er mwyn wynebu'r heriau sgiliau i'r dyfodol, bydd yn rhaid i ni fel gwlad baratoi heddiw, nid yn unig drwy fanteisio ar dechnolegau newydd a sectorau newydd, ond hefyd drwy alluogi pobl i uwchsgilio a dysgu gydol eu hoes, er mwyn iddynt allu ffynnu mewn marchnad waith sy'n newid. Mae hyn yn rhan hollbwysig o'r gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol y nodwyd gennym yn y Cynllun Gweithredu Economaidd.

### Cyfrifon Dysgu Personol

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol i ddatblygu cynigion i gyflwyno cyfrifon dysgu personol (PLA) ar gyfer gweithwyr i ariannu hyfforddiant galwedigaethol personol mewn sectorau lle mae prinder sgiliau, gan gynnwys y meysydd digidol a STEM. Mae rhoi'r cyfle i unigolion cyflogedig uwchsgilio ac addasu i'r byd gwaith sy'n newid yn elfen hanfodol o'n gwaith yn diogelu dyfodol gweithlu Cymru yn wyneb newidiadau economaidd a chymdeithasol i'r dyfodol, gan gynnwys y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Ers mis Mawrth, rydym wedi ymgysylltu'n eang ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys undebau llafur a darparwyr hyfforddiant, trwy fforwm trafod a drefnwyd gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith, gan fanteisio ar y gwersi a ddysgwyd trwy fodelau PLA eraill ar draws y byd i helpu datblygiad ein peilot ni. Rydym hefyd wedi cynnal ymchwil i'r prinder sgiliau presennol ledled Cymru.

Rydym yn gobeithio lansio dau beilot o fis Ebrill 2019 sydd wedi'u hanelu at unigolion cyflogedig, gyda phob peilot yn rhoi prawf ar fodel cyflawni gwahanol. Tra'n disgwyl am ragor o waith datblygu, bydd y cynlluniau peilot yn cynnig hyfforddiant achredig o ansawdd uchel, gan ddarparu ystod o gyrsiau dysgu galwedigaethol a chymwysterau cymeradwy sy'n gysylltiedig â sbardunau allweddol y sector i helpu unigolion i symud ymlaen i gyflogaeth ar lefel uwch. Bydd hefyd yn cynnig cyrsiau hyfforddi byrrach sydd wedi'u hanelu at unigolion sydd angen uwchsgilio mewn meysydd galwedigaethol allweddol i ddiwallu anghenion cyflogwyr.

### Annog dyrchafiad mewn swyddi yn y sectorau cyflog isel

Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, trefnodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru symposiwm a dadl ym mis Gorffennaf a oedd yn cynnwys fforwm drafod o grŵp o arbenigwyr. Roedd y digwyddiad yn galluogi llunwyr polisi ac arbenigwyr i ystyried y rhwystrau rhag cael dyrchafiad mewn swyddi cyflog isel ac i edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael ar sut i hyrwyddo dyrchafiad mewn swyddi o'r fath. Bu'r digwyddiad yn ystyried dyrchafiad mewn swyddi ym mhedwar sector sylfaenol yr economi sy'n cael blaenoriaeth yn

y *Cynllun Gweithredu Economaidd* a bu hefyd yn ystyried dyrchafiad mewn sectorau cyflog isel eraill sy'n rhan o Gynlluniau Gweithredu'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Rydym yn awr am roi prawf ar yr hyn a ddysgwyd, ac ystyried sut i feithrin y galw a'r gweithgarwch yr ochr gyflenwi ar gyfer dyrchafiad mewn swydd. Bydd adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ar y digwyddiad, a gyhoeddir yn fuan, yn cynnwys argymhellion ar y camau nesaf.

### Entrepreneuriaeth

Rydym eisiau ysbrydoli a helpu'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid ifanc yng Nghymru, a helpu'r sawl sydd â diddordeb mewn cychwyn busnes i weithio ar eu syniadau eu hunain.

Ers agor am y tro cyntaf ym mis Ebrill eleni, nod Hwb Menter Wrecsam yw cynnig cymorth cyflawn i ddarpar entrepreneuriaid, mewn gofod cymunedol cefnogol. Mae'r ganolfan wedi'i hintegreiddio'n llawn yng ngwasanaethau cymorth Busnes Cymru, ac mae'n cynnig amgylchedd gwaith sy'n cael ei rannu ac sy'n cael ei ddefnyddio gan Fusnes Cymru ar gyfer gweithdai a chyfarfodydd cleientiaid. Fel rhan o dreial dwy flynedd, y gobaith yw y bydd canolfan Wrecsam yn helpu i greu 100 o fentrau newydd a 260 o swyddi newydd, yn ogystal â helpu i sicrhau o leiaf £1m o fuddsoddiad preifat i'r entrepreneuriaid sy'n aelodau.

Mae'r ganolfan wedi'i seilio ar y cysyniad o ddarpariaeth 5-9, sy'n gofyn am wasanaethau cymorth i entrepreneuriaid y tu allan i oriau gwaith arferol. Trwy ddarpariaeth hyblyg o'r fath, mae'r ganolfan yn gobeithio denu mwy o fenywod a grwpiau eraill sy'n cael eu tangynrychioli mewn gweithgarwch entrepreneuraidd.

Mae'r ymatebion i dendrau am bedwar Hwb Menter arall yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd a bydd y contract yn cael ei ddyfarnu fel 4 lot rhanbarthol ledled Cymru.

### Ymgysylltu â'r FSB ar gymorth i'r hunangyflogedig a micro fusnesau

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos hefyd â Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) i wella cymorth i bobl hunangyflogedig a micro fusnesau.

Mae cynrychiolydd o'r FSB yn aelod o Fwrdd Strategol Busnes Cymru ac mae'n cyfrannu at strategaeth y gwasanaeth. Trwy'r system hon, rydym yn cael trafodaethau rheolaidd â'r FSB, gan sicrhau bod anghenion entrepreneuriaid, micro fusnesau a busnesau bach a chanolig yn cael eu hystyried yn narpariaeth a chyfeiriad Busnes Cymru, yn ogystal â'r cyngor a roddir i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth.

Mae'r Bwrdd yn galluogi cydweithredu ar nifer o faterion, fel dod o hyd i atebion i'r materion a nodwyd yn adroddiadau hunangyflogaeth 'Missing Middle' a 'Going Solo' yr FSB, yn ogystal â monitro a gwerthuso darpariaeth ac effaith cymorth Busnes Cymru i'r hunangyflogedig, micro fusnesau a busnesau bach a chanolig i sicrhau gwelliant parhaus.

Hefyd, roedd Cadeirydd yr FSB yn bresennol yn ddiweddar yn y Global Entrepreneurship Congress (GEC) yn Nhwrci fel rhan o ddirprwyaeth Cymru. Un cam sydd wedi deillio o'r GEC yw bod Llywodraeth Cymru yn gweithio â'r FSB i ddatblygu cynllun blynyddol ar gyfer gwobrau, digwyddiadau a chyhoeddusrwydd i bynciau sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

## Edrych ar sectorau newydd mewn oes waith newydd

### Coedwigaeth a phren

Fel y nodwyd yn y Cynllun Cyflogadwyedd, rydym am fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth sy'n deillio o'n heconomi carbon isel ac atal newid yn yr hinsawdd.

Rydym wedi bod yn ystyried cyfleoedd pellach yn y sector coedwigaeth, yn benodol i fanteisio ar y cyfleoedd twf gwyrdd (a amlinellwyd yn Strategaeth Coetiroedd a Choed Cymru a ddiweddarwyd yn ddiweddar) ac i fynd i'r afael ag anghenion sgiliau a recriwtio'r dyfodol i greu diwydiant coedwigaeth wedi'i adfywio yn ystod y degawd nesaf.[6]

Gan gydweithio'n glos ag ystod o randdeiliaid yn y sector, rydym ar hyn o bryd yn datblygu prosiect prentisiaeth peilot newydd sy'n hybu adnoddau pren cynaliadwy, sy'n datblygu cysylltiadau â chyflogwyr a fyddai'n elwa ar y peilot, ac yn creu 30 o brentisiaethau newydd trwy glwstwr sgiliau sector sy'n cael ei arwain gan gyflogwyr sy'n rhan o'r rhaglen. Rydym yn gobeithio y bydd y treial yn weithredol erbyn diwedd 2018.

## Canolfannau technoleg newydd

Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu canolfannau arbenigol i helpu i ddatblygu sgiliau technolegol ac i fanteisio ar ddatblygiadau mewn sectorau newydd sy'n datblygu, er mwyn paratoi ein gweithlu ar gyfer oes waith newydd.

Dechreuodd y gwaith adeiladu ar Athrofa Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Llywodraeth Cymru ym Mrychdyn ym mis Mehefin. Bydd y ganolfan hon yn darparu lefel newydd o gymorth technegol i fusnesau sy'n datblygu sgiliau a phrosesau gweithgynhyrchu newydd. Trwy 'fynediad agored', bydd yn sicrhau cydweithredu rhwng diwydiant, partneriaid academaidd ac entrepreneuriaid i hybu arloesi, uwchsgilio'r gweithlu ac i weithredu fel catalydd ar gyfer twf economaidd. Rydym yn buddsoddi £20m yn y sefydliad newydd, a fydd yn rhoi pwyslais cryf ar sectorau gweithgynhyrchu uwch gan gynnwys awyrofod, moduron, niwclear a bwyd. Disgwylir y bydd y ganolfan yn agored erbyn diwedd 2019.

Hefyd, disgwylir y bydd clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd cyntaf y byd yn cael ei sefydlu yng Nghymru, ac a fydd yn cynnwys cyfres o ganolfannau uwch dechnoleg a hybiau gweithgynhyrchu sydd wedi buddsoddi mewn technoleg lled-ddargludyddion cyfansawdd.

## Panel Arbenigwyr ar Awtomatiaeth

Mae Panel Arbenigwyr wedi'i sefydlu erbyn hyn i gynorthwyo'r Adolygiad o Arloesi Digidol. Mae'r adolygiad yn cael ei gadeirio gan yr Athro Phil Brown, Cymrawd Ymchwil Nodedig ym Mhrifysgol Caerdydd.

Yn ogystal ag ymchwilio i effaith awtomatiaeth ar economi Cymru a dyfodol gwaith, bydd y panel yn edrych ar ddylanwad technolegau cysylltiol ym meysydd roboteg, deallusrwydd artiffisial, y rhyngrwyd pethau a data graddfa fawr, a'r rôl y bydd y rhain yn ei chwarae i drawsnewid economi a marchnad lafur Cymru. Bydd gan y panel gylch gwaith estynedig sy'n ymestyn y tu hwnt i'r hyn a bennwyd yn y Cynllun yn wreiddiol i gynnwys y technolegau uchod ac i helpu'r Athro Brown â'i adolygiad.

Cyfarfu'r panel gyntaf ym mis Mehefin a bydd yn parhau i gymryd tystiolaeth bob deufis i ffurfio ei syniadau polisi. Bydd adroddiad interim ar gael ym mis Tachwedd cyn cyhoeddi'r argymhellion terfynol ym mis Mawrth 2019. Mae gan y panel y cwmpas hefyd i roi cyngor parhaus i Lywodraeth Cymru fel y gellir rhoi prawf ar syniadau newydd ac y gellir dysgu yn eu sgil ar y cyfle cyntaf posibl.

[6] Coetiroedd i Gymru: Strategaeth, gov.wales/newsroom/environmentandcountryside/2018/180626-woodlandand-trees-strategy-for-wales-launched/?skip=1&lang=cy

llyw.cymru